



UK Government
Llywodraeth y DU

Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21



UK Government
Llywodraeth y DU

Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 6(4) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Dŷ'r Cyffredin drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd i'w hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin

12 Gorffennaf 2021

HC 323

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau Adrannol sydd, ynghyd â Phrif Amcangyfrifon 2021-22, y ddogfen Public Expenditure: Statistical Analyses 2021, and the Supply Estimates 2020-21: Supplementary Budgetary Information, yn cyflwyno alldro'r Llywodraeth ar gyfer 2020-21 a gwariant arfaethedig ar gyfer 2021-22.



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu gan fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications a thrwy ein gwefan yn www.walesoffice.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn correspondence@ukgovwales.gov.uk

ISBN 978-1-5286-2579-1

CCS0421361480 07/210

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Pennod 1 – Yr Adroddiad Perfformiad	1
Rhagair y Gweinidog	1
Cyflwyniad y Cyfarwyddwr	3
Trosolwg o'r Adran	4
Datblygu Cynaliadwy	25
Adolygiad Ariannol	27
Pennod 2 – Yr Adroddiad Atebolrwydd	30
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	30
Adroddiad y Cyfarwyddwr	30
Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	32
Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth archwilio berthnasol	33
Datganiad Llywodraethu	34
Adroddiad Tâl a Staff	44
Adroddiad Staff	56
Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio	64
Datganiad Cyflenwad Seneddol	64
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin	73
Pennod 3 – Datganiadau Ariannol	79
Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021	83
Atodiad 1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus	101

1 Yr Adroddiad Perfformiad

Rhagair y Gweinidog

Mae Swyddfeydd Tiriogaethol wedi gweld llwyddiant fel na welwyd ers y Deddfau datganoli dros ugain mlynedd yn ôl. Mae ymrwymiad y Llywodraeth i godi'r gwastad ar draws y DU a chryfhau'r Undeb, gan ddod â phwerau o Frwsel, ei gallu dilyffethair newydd i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn cymunedau, a chaffael brechlyn cyflym yn un o'r argyfyngau iechyd mwyaf difrifol mewn hanes modern, i gyd wedi gwneud y flwyddyn ddiwethaf yn un allweddol yn y Swyddfa.

Mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ("y Swyddfa") yn gweithio ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod Cymru'n cael y budd mwyaf o'r newidiadau ysgubol hyn ac o'r gwaith o lunio polisiau o bob math, gan gydgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i deilwra'r gwaith o gyflwyno'r polisiau hynny ar lawr gwlad. Hoffwn ddiolch i'm cyd-Aelodau yn San Steffan am eu cefnogaeth gan ein bod wedi rhoi'r Undeb wrth wraidd ein hymdrechion. Rwy'n bwriadu adeiladu ar y momentwm hwnnw, gan gymryd camau i gryfhau'r Undeb bob dydd o'r Senedd hon, fel rwyf wedi ymdrechu i'w wneud ers i mi ddod yn Ysgrifennydd Gwladol yn 2019.

Yn ogystal â chynrychioli Cymru yn San Steffan, mae gan y Swyddfa bresenoldeb amlwg cryf i Lywodraeth y DU yng Nghymru, gan weithio ochr yn ochr â nifer cynyddol o adrannau er mwyn i'r cyhoedd yng Nghymru weld manteision ymarferol bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae Canolfan newydd y Llywodraeth yng Nghaerdydd – Tŷ William Morgan – yn arwydd parhaol 12 llawr o'n hymrwymiad i Gymru. Fe'i hgorwyd heb rwysg ac mewn ffordd a oedd yn diogelu pawb rhag Covid y gwanwyn hwn, ac rydym yn cynnal sesiynau briffio rheolaidd gyda'r wasg a'r cyfryngau lleol o'r swyddfa newydd hon.

Wrth i ni symud tuag at adferiad ar ôl COVID-19, gallwn edrych ymlaen at ddyfodol mwy disglair i Gymru. Hyd yn oed gyda'r pandemig byd-eang, ym mis Rhagfyr, sicrhodd y Llywodraeth y cytundeb masnach rydd mwyaf y mae'r Undeb Ewropeaidd erioed wedi cytuno arno. Mae dros 65 o gytundebau masnach rydd wedi'u llofnodi ers hynny – ac mae'r nifer hwnnw'n cynyddu fesul wythnos. Yr wyf wedi sicrhau y caiff buddiannau busnesau Cymru eu cynrychioli yn y trafodaethau hynny fel bod y cytundebau'n cyflawni ar gyfer economi Cymru.

Yn nes at adref, byddwn yn grymuso cymunedau Cymru drwy Gronfa Codi'r Gwastad. Mae £4.8 biliwn ar gael ar gyfer y DU gyfan a bydd yn rhoi bywyd i brosiectau lleol fel ffyrdd osgoi, gorsafoedd rheilffordd a buddsoddiad i adfywio strydoedd mawr a chanol trefi. Bydd fy Swyddfa yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i'w helpu i wireddu eu huchelgais drwy'r buddsoddiad uniongyrchol hwn, yn ogystal â defnyddio'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol gwerth £220 miliwn a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a fydd yn dilyn yn fuan. Mae'n nodi pennod newydd ar gyfer

Llywodraeth y DU yng Nghymru, gan sefydlu grym a'r gallu i wneud penderfyniadau lle dylai fod – ar y lefel isaf posibl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd buddsoddiad uniongyrchol sylweddol yng Nghymru eisoes. Mae £800 miliwn wedi'i ymrwymo i fargeinion dinesig a thwf dros pob modfedd o Gymru. Rwyf wedi llofnodi nifer o fargeinion twf, a bydd cyllid tair ohonynt yn cael ei gyflymu erbyn hyn er mwyn creu swyddi'n gyflymach: Bae Abertawe, Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru. Euthum i weld safle'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd a fydd yn elwa o fuddsoddiad o £30 miliwn gan Lywodraeth y DU ar gyfer adeiladu canolfan ar gyfer profi cerbydau a seilwaith yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ar gyfer arloesi yng Ngogledd Cymru, bydd Canolfan Hydrogen Caergybi yn elwa o £4.8 miliwn gan y Llywodraeth ar gyfer prosiect arddangos hydrogen gwyrdd a fydd yn creu swyddi medrus iawn ar Ynys Môn.

Drwy gydol y flwyddyn, rwyf wedi ymgysylltu'n agos â'n rhanddeiliaid, gan gwrdd â chynrychiolwyr o bob cwr o Gymru, ym mhob math o sectorau. Mae hyn yn cynnwys Wockhardt ac Airbus yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, ffatri reilffordd CAF yn Ne Ddwyrain Cymru, a Hybrisan a British Rototherm yn Ne Orllewin Cymru. Rwy'n parhau i gynnal cyfarfodydd bord gron rheolaidd gyda busnesau, awdurdodau lleol ac eraill, yn ogystal â chyfarfodydd ag Arglwyddi Cymru a gweinidogion Llywodraeth Cymru wrth i ni symud tuag adferiad COVID-19 a chwblhau'r cyfnod pontio o adael yr UE.

Mae fy Swyddfa wedi gweithredu'n bendant i chwarae ein rhan yn ymateb y Llywodraeth i COVID-19. Rydyn ni wedi sicrhau bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos, ac rydyn ni wedi rhoi sêl ein bendith ar ddarparu staff milwrol i gefnogi'r broses o gyflwyno brechlyn sydd gyda'r gorau yn y byd. Mae'r Llywodraeth wedi darparu £2.4 biliwn o gyllid i Lywodraeth Cymru i helpu i frwydro yn erbyn COVID-19 ac rwyf wedi bod yn falch o weld y gwahaniaeth y mae cynlluniau Llywodraeth y DU, fel ffyrlo a benthyciadau, wedi'i wneud i fusnesau Cymru.

Mae wedi bod yn flwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen yn y Swyddfa. Hoffwn ddiolch i'm swyddogion am y ffordd y maent wedi ymateb i'r heriau amrywiol ac i'm tîm Gweinidogol - David TC Davies AS, y Farwnes Bloomfield a Sarah Atherton AS - am eu cefnogaeth wych.

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

Mae 2020-21 wedi bod yn flwyddyn hynod arall i Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Dechreuodd gyda'r Adran i gyd yn gweithio o gartref ac mae wedi gorffen bron yr un fath. Ond mae'r sefyllfa'n teimlo'n wahanol iawn nawr wrth i ni edrych ymlaen tua'r dyfodol gyda gobaith.

Roedd cysgod COVID-19 dros y flwyddyn ddiwethaf, wrth gwrs, er bod diwedd Cyfnod Pontio Ymadael â'r UE hefyd yn arwyddocaol dros ben i'r Adran. Mae'r Adran yn parhau i chwarae rhan lawn yn yr ymdrechion i fynd i'r afael â'r heriau hynny, gan sicrhau bod llais Cymru i'w glywed ym mhob trafodaeth allweddol ac nad yw buddiannau Cymru byth yn cael eu hanwybyddu na'u gwthio i'r cyrion. Roeddem wedi gweithio'n galed i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am ddatblygiadau, gan ddefnyddio eu gwybodaeth, eu profiad a'u dealltwriaeth i siapio dull gweithredu Llywodraeth y DU ar yr un pryd. Bydd y berthynas â'r rhanddeiliaid hynny'n bwysicach byth yn ystod yr wythnosau, y misoedd a'r blynyddoedd nesaf wrth inni geisio ailadeiladu ac ymadfer.

Mae'r tîm yma wedi ymateb yn wych bob tro. Mae eu hymrwymiad wedi bod yn ysbrydoliaeth wirioneddol. Y rhinweddau hynny ac eraill rwy'n eu gweld bob dydd sy'n fy ngwneud mor hyderus y byddwn yn llwyddo yn yr hyn sydd o'n blaenau.

Bydd y ffordd yn hir ond yr ydym wedi dechrau'n gadarnhaol. Mae'r cyhoeddiad am gyllid ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn Ne Cymru a chynllun peilot Hyb hydrogen yng Ngogledd Cymru yn enghreifftiau cynnar a phendant o'r weledigaeth sydd gennym ar gyfer Cymru a'r gefnogaeth sydd ar gael. Yn yr un modd, mae cyflymu'r cyllid ar gyfer tair o'n Bargeinion Dinesig a Thwf yn arwydd o'n penderfyniad i symud yn gyflym. Mae'r datblygiadau hyn, ochr yn ochr â chyflwyno cronfeydd twf lleol fel Adnewyddu Cymunedol a Chodi'r Gwastad a phresenoldeb cynyddol adrannau fel yr Adran Fasnach Ryngwladol yng Nghymru, yn cyflwyno pennod newydd a chyffrous i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru.

Glynne Jones CBE
Cyfarwyddwr

Trosolwg Adrannol

Mae Trosolwg Strategol yr Adran yn nodi ein gwaith o dan bedair blaenoriaeth strategol

Mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ('y Swyddfa') yn helpu Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hyrwyddo buddiannau Cymru mewn Teyrnas Unedig gref. Ni yw wyneb Llywodraeth y DU yng Nghymru a llais Cymru yn Whitehall.

Ein gweledigaeth yw cefnogi Cymru ffyniannus mewn Teyrnas Unedig gref.

Mae gan y Swyddfa bedair blaenoriaeth strategol:

Blaenoriaeth 1 - Ysgogi twf a chreu swyddi cynaliadwy drwy gefnogi economi gref yng Nghymru mewn Prydain fyd-eang ffyniannus, a marchnad fewnol y DU.

Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i Gymru o flaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer masnach a buddsoddiad tramor

Drwy gydol y cyfnod adrodd, bu'r Swyddfa'n gweithio'n agos gydag adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn mewn Cytundebau Masnach Rydd a lofnodwyd gan y DU a gwledydd eraill, ac mewn mandadau ar gyfer trafodaethau i gytuno ar gytundebau masnach rydd yn y dyfodol.

Roedd gwaith y Swyddfa yn cynnwys:

- Ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru ynghylch y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) a gyhoeddwyd ar 24 Rhagfyr. Mae'r TCA yn darparu ar gyfer parhad masnach heb gwtas na thollau rhwng y DU a'r UE ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020. Rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wybodaeth i randdeiliaid yng Nghymru am gynnwys y Cytundeb ar 29 Rhagfyr a 19 Ionawr.
- Gweithio gyda'r Adran Fasnach Ryngwladol i sicrhau bod y mandadau ar gyfer trafodaethau masnach y DU yn gweithio i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys y mandadau ar gyfer trafodaethau gydag UDA, Awstralia a Seland Newydd, a thrafodaethau i ymuno ag ardal fasnach rydd gydag 11 o wledydd Asia a'r Môr Tawel o'r enw'r Cytundeb Cynhwysfawr a Chynyddol ar gyfer Partneriaeth Traws-Basiffig¹ (CPTPP).
- Esbonio'r cyfleoedd i fusnesau Cymru yn sgil uchelgais Llywodraeth y DU i sicrhau cytundebau masnach rydd gyda gwledydd fydd yn cwmpasu 80% o fasnach y DU erbyn 2022. Fel cam cyntaf, mae Cytundeb Partneriaeth Economaidd Cynhwysfawr y DU-Japan, y cytunwyd arno ym mis Medi ac a lofnodwyd ym mis Hydref, yn adeiladu ar gytundeb yr UE-Japan ac mae'n

1 Mae aelodau presennol y CPTPP yn cynnwys Awstralia, Canada, Japan a Seland Newydd.

darparu sylfaen gadarn i gynyddu allforion Cymru i Japan - gwerth bron i £300 miliwn yn 2019.

Llwyddodd y fargen hefyd i sicrhau bod cynnyrch o Gymru'n cael eu cydnabod yn swyddogol. Drwy gynyddu'r Dynodiadau Daearyddol (GI) o saith yn y cytundeb rhwng yr UE a Japan i dros 70 o bosibl o dan Gytundeb y DU-Japan, mae gwir botensial i gynyddu'r gydnabyddiaeth o frandiau o Gymru yn y farchnad yn Japan.

- Ymgysylltu â'r Adran Fasnach Ryngwladol ar gytundebau parhad, a oedd yn troi cytundebau masnach rhwng yr UE a gwledydd eraill yn gytundebau rhwng y DU a thrydedd gwlad. Estynnodd y DU gytundebau gyda 63 o wledydd ar ddiwedd y Cyfnod Pontio. Mae hyn yn golygu bod y DU yn dal i fasnachu yn yr un ffordd â'r gwledydd hyn ag y gwnâi pan oedd yn aelod o'r UE.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn aelod o'r Bwrdd Masnach. Cyfarfu'r Bwrdd newydd ddwywaith yn ystod y flwyddyn adrodd – ym mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021 – i drafod materion sy'n ymwneud ag ailymddangosiad y DU fel gwlad fasnachu annibynnol ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio. Mae Gweinidogion y Swyddfeydd hefyd yn mynychu'r Fforwm Gweinidogol dros Fasnach (MFT), lle mae Gweinidogion y DU a gweinidogion o'r gweinyddiaethau datganoledig yn trafod materion sy'n ymwneud â masnach ryngwladol. Mae'r MFT yn cael ei gefnogi gan grŵp o uwch swyddogion, sy'n cael ei fynychu gan swyddogion y Swyddfa.

Bu Gweinidogion yr Adran hefyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda chomisiynwyr masnach a phrif negodwyr EM i bwysleisio pwysigrwydd cytundebau masnach y DU i Gymru ac i sectorau penodol yn economi Cymru.

Cyfarfu Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn aml gydag uwch randdeiliaid o wahanol sectorau yng Nghymru i ystyried effaith polisi masnach Llywodraeth y DU. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd gyda'r Undebau Ffermio, Sefydliadau Cynrychiolwyr Busnes a'r Diwydiannau Modurol, Dur ac Awyrfod.

Oherwydd COVID-19, nid yw hyrwyddo masnach egniol wedi bod yn bosibl gan ei fod wedi bod mewn blynyddoedd blaenorol, gyda llawer o ddigwyddiadau rhyngwladol wedi'u canslo neu eu gohirio, fel Dubai Expo 2020 a'r Ffair Diwydiant Eiddo MPIM. Byddwn yn edrych i 2021-22 i gychwyn hyrwyddiad masnach unwaith eto.

Cefnogi twf economaidd yng Nghymru

Dros y flwyddyn, mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos gydag UK Research and Innovation (UKRI) i sicrhau bod arbenigedd Cymru yn cael ei gydnabod a bod cyllid ar gael i brosiectau cymwys. Er enghraifft, mae Cymru wedi gweld buddsoddiad o £84.8m ar 88 o brosiectau drwy Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol UKRI. Mae hyn yn cynnwys £36m ar gyfer y Ganolfan Adeiladu Weithredol yn Abertawe ac £1.7m ar gyfer 'cyffuriau byw' a grëwyd gan TrakCel yng Nghaerdydd. Bydd y cyllid hwn yn helpu i ddod ag ymchwil yn fyw a datblygu perthnasedd ymchwil yn y byd go iawn.

Mae dur yn dal yn bwysig i economi Cymru ac yn bwysig yn strategol i'r DU gyfan. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i gefnogi sector Dur cynhyrchiol, bywiog a

modern yng Nghymru. Gweithiodd y Swyddfa'n agos gyda'r Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a'r diwydiant i sicrhau bod ganddo ddyfodol cynaliadwy. Gan weithio gyda'r diwydiant, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno canllawiau Caffael Cyhoeddus Dur sy'n sicrhau bod y sector cyhoeddus yn ystyried y manteision cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach wrth gaffael ar gyfer prosiectau mawr. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ailymgynnull y Cyngor Dur, y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei fynychu, ac wedi lansio tasglu caffael ar y cyd gyda UK Steel i sicrhau y gallwn barhau â'r berthynas hon.

Fel rhan o'r Her Datgarboneiddio Diwydiannol, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fuddsoddiad o £20m, ac £18m pellach o arian cyfatebol gan y diwydiant, er mwyn galluogi De Cymru i ddatblygu cynllun datgarboneiddio strategol wedi'i deilwra'n arbennig. Gallai'r cynllun, a fydd yn cael ei ddatblygu a'i arwain gan ddiwydiant, gynnwys technolegau datgarboneiddio fel hydrogen carbon isel, technoleg dal carbon a chludiant carbon.

Yng Nghyllideb 2021, darparodd Llywodraeth y DU £4.8m, yn amodol ar achos busnes a chymeradwyaeth arall, i gefnogi datblygiad Canolfan Hydrogen Caergybi. Mae'r hyb yn cynnig cynllun peilot gwaith cynhyrchu hydrogen gwyrdd i gyflenwi tanwydd hydrogen i'r marchnadoedd nwyddau trwm a cherbydau morwrol ar Ynys Môn. Mae'r cynnig yn ceisio manteisio ar adnoddau naturiol ffafriol y rhanbarth a'i safle fel coridor trafniadaeth aml-foddol trawsffiniol.

Mae'r Swyddfa hefyd wedi gweithio gyda BEIS ar gyfleoedd i gynhyrchu ynni gwynt ar y môr oddi ar arfordir Cymru. Mae gan y dechnoleg hon botensial lleoli cryf yn nyfroedd Cymru, yn enwedig yn y Môr Celtaidd oddi ar arfordir De Orllewin Cymru a Lloegr lle mae cyflymder y gwynt yn uchel a lle mae moroedd dwfn yn hygyrch o borthladdoedd strategol mawr. Mae'r Swyddfa hefyd wedi gweithio ar gyfleoedd prosiect sero-net eraill dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

Mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi i fwrw ymlaen ag ymrwymiad y Llywodraeth i sefydlu o leiaf un porthladd rhydd yng Nghymru, gan ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Phorthladdoedd i ddatblygu cynnig porthladd rhydd i Gymru. Bydd porthladdoedd rhydd yn Ganolfannau ar gyfer masnach ryngwladol, arloesi a masnach, gan ddod â busnesau, swyddi a buddsoddiad newydd i adfywio cymunedau ledled y DU.

Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol yng Nghymru

Mae'r Swyddfa'n dal i ymgysylltu ar bob lefel â'r holl fargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys monitro'r gwaith o gyflawni'r cytundebau drwy gyfarfodydd rheolaidd ar lefel swyddogion a Chyd-gyfarfodydd gweinidogol lle bo angen.

Roedd Bwrdd Gweithredu Bargeinion Dinesig a Thwf Cymru, a oedd yn cael ei gadeirio ar y cyd gan uwch swyddogion yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth Cymru, hefyd yn cyfarfod bob chwarter i adolygu risgiau a mesur cynnydd pob cytundeb yn erbyn cerrig milltir perfformiad.

Gyda golwg ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda CCR a'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar yr adolygiad pum mlynedd cyntaf o'r Porth a gafodd ei gwblhau'n llwyddiannus ym mis Mawrth 2021.

O ran Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r rhanbarth i roi argymhellion yr Adolygiad Annibynnol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019 ar waith yn llwyddiannus. Mae rhagor o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo eleni, gan gynnwys ymyriadau ynni carbon isel fel prosiect Morol Doc Penfro, prosiectau Ymchwil a Datblygu fel Pentref Llesiant Pentre Awel.

Cafodd Cytundeb y Bargaen Derfynol ar gyfer Gogledd Cymru ei lofnodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol a phartneriaid eraill ym mis Rhagfyr 2020. Roedd Llywodraeth y DU wedi ymrwymo £120m gyda'r nod o sicrhau cynnydd o £2.2 biliwn mewn GVA gyda'r buddsoddiad yn glanio mewn da bryd er mwyn i'r Cynnig chwarae ei ran yn yr adferiad COVID-19. Mae prosiect ynni'r llanw'r Fargen, Morlais, yn dangos addewid mawr wrth iddo baratoi'r safle oddi ar Ynys Môn i ddatblygwyr y sector preifat brydlesu'r ardal i ddefnyddio technoleg ynni'r llanw.

Cafodd Penawdau'r Telerau ar gyfer Bargaen Dwf y Canolbarth eu lofnodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol a phartneriaid eraill ym mis Rhagfyr 2020. Yn 2019, ymrwymodd y Llywodraeth £55m i'r Canolbarth. Mae'r Rhanbarth yn awr yn llunio portffolio o ymyriadau uchelgeisiol.

Yng Nghyllideb 2021, cefnogodd y Swyddfa benderfyniad Llywodraeth y DU i gyflymu Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, Bargaen Twf Gogledd Cymru a buddsoddiadau Bargaen Twf Canolbarth Cymru er mwyn i'r rhanbarthau hyn allu cael eu buddsoddiadau'n gynt a gall y Bargeinion Twf chwarae rhan allweddol yn adferiad COVID-19.

Blaenoriaeth 2 - Adeiladu Cymru ffyniannus, carbon isel sydd â chysylltiadau da drwy sicrhau ei bod yn elwa ar gynlluniau i greu twf a chyfleoedd ledled y DU, gan gynnwys cefnogaeth a thechnoleg wledig, manteisio ar gyfleoedd Brexit a cheisio cyflawni ymrwymiad y Prif Weinidog i gyflymu prosiectau ledled y DU.

Sicrhau buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn seilwaith, technoleg ac arloesi

Rôl y Swyddfa mewn buddsoddi mewn seilwaith yw helpu adrannau'r Llywodraeth i ddeall anghenion Cymru a sicrhau eu bod yn cael eu blaenoriaethu'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith ymgysylltu ar seilwaith wedi bod gyda'r Adran Drafnidiaeth, yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Seilwaith trafnidiaeth

Ym mis Mehefin 2020, gofynnodd y Prif Weinidog i Syr Peter Hendy CBE gynnal adolygiad annibynnol o gysylltedd trafnidiaeth rhwng Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae £20m wedi cael ei ddarparu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer yr Adolygiad o Gysylltiad â'r Undeb, a bydd Cymru'n elwa o hynny. Mae Syr Peter eisoes wedi nodi, yn ei adroddiad interim, nifer o ardaloedd a fyddai o

fudd i Gymru, gan gynnwys yr angen am: gysylltiadau capasiti cyflymach ac uwch ar gyfer teithwyr o HS2 i Ogledd Cymru; capasiti uwch ac amseroedd teithio cyflymach ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd; lliniaru tagfeydd ar goridor yr M4 yn Ne Cymru; gwell capasiti ym mhorthladd Caergybi, a chysylltiadau o Ynys Môn ac arfordir Gogledd Cymru i Lannau Mersi a Manceinion. Mae'r swyddfa wedi gweithio'n agos gyda'r ysgrifenyddiaeth ar yr adolygiad hwn.

Mae cynnydd wedi bod o ran uwchraddio'r rheilffyrdd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ym mis Awst, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth becyn buddsoddi gwerth £343m ar gyfer rheilffyrdd Cymru, a fydd yn uwchraddio seilwaith ac yn gwella teithiau i deithwyr. Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys £196m, wedi'i drosglwyddo i Lywodraeth Cymru ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd, £75m arall tuag at drydaneiddio Twnnel Hafren, £58m i uwchraddio Gorsaf Ganolog Caerdydd ac i adfywio'r ardal ehangach, a £4m i ailagor Gorsaf Bow Street ger Aberystwyth.

Daliodd y Swyddfa i weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail i ddal i ddatblygu cynigion ar gyfer gwelliannau i reilffyrdd yng Nghymru, yn cynnwys:

- Cynyddu cyflymder llinellau ar reilffordd De Cymru rhwng Caerdydd, Casnewydd a Chyffordd Twnnel Hafren, a fydd yn galluogi gwasanaethau ychwanegol i redeg a gwella amseroedd teithio.
- Lleihau amser teithio ar Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru, drwy gyflymu'r llinellau a rhwng Gogledd Cymru, Gogledd Orllewin Lloegr a chanolfannau mawr eraill yn y DU a gwella cysylltedd â HS2.
- Gwella amser teithio a chapasiti ar lwybr Caerdydd-Abertawe, drwy gymysgedd o welliannau seilwaith ac ymyriadau gwasanaeth.

Llwyddodd y Swyddfa i ddylanwadu ar yr Adran Fusnes, Menter, Arloesi a Sgiliau i gytuno i fuddsoddi hyd at £30m, yn amodol ar gymeradwyaeth ac ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, yn y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd, i greu cyfleuster profi trenau o'r radd flaenaf yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i adfywio hen safleoedd glofaol yn Onllwyn a Nant Helen – gan ddarparu swyddi medrus iawn a chyfleoedd cadwyn gyflenwi.

O ran seilwaith ffyrdd, mae'r Swyddfa'n parhau i weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth ar ddewisiadau sy'n ymwneud â'r ymrwymiad yn y maniffesto i uwchraddio'r A55, ac uwchraddio ffyrdd trawsffiniol eraill. Mae'r Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb hefyd wedi edrych ar ffyrdd trawsffiniol a bydd yn parhau i wneud hynny.

Seilwaith digidol

Mae'r Swyddfa wedi parhau i weithio gyda'r Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i wella'r Seilwaith Digidol yng Nghymru. Mae cynnydd ar nifer o gynlluniau, a amlinellir isod, wedi'i wneud eleni.

O dan y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi buddsoddiad mewn 109 o fastiau signal symudol i roi hwb i i ddarpariaeth 4G ledled Cymru. Bydd 33 o fastiau signalau symudol newydd yn cael eu hadeiladu, gan gynnwys

9 ym Mhowys, 8 yn Eryri a 5 ym Mannau Brycheiniog. Cafodd y mast newydd cyntaf ei roi ar waith yn Y Dyfawden ym mis Mehefin 2020. Bydd 76 o fastiau signal symudol eraill yn cael eu huwchraddio. Bydd y rhain yn sicrhau bod darpariaeth 4G ar gael gan o leiaf un gweithredwr symudol yn 95% o dir Cymru erbyn 2026.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymrwymo £5bn i gyflwyno band eang sy'n gallu delio â gigabiets ledled y DU, gan ddechrau gyda £1.2bn dros y pedair blynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad hwn yn targedu'r 20% o eiddo sydd anoddaf i'w cysylltu, gan flaenoriaethu buddsoddiad mewn ardaloedd, gan gynnwys yng Nghymru, sydd bellaf ar ei hôl hi o ran cysylltedd band eang.

Bydd Llywodraeth y DU yn darparu dros 1,700 o dalebau gwerth £3.4m i ysgogi buddsoddiad mewn band eang gigabeit yng Nghymru. Bydd £1.4 miliwn tuag at gost gosod band eang sy'n gallu delio â gigabiets ar gyfer 558 o gartrefi a busnesau yng Nghymru, gyda 69 arall ar y gweill. Mae'r cynllun Cysylltedd Gigabeit Gwledig (RGC) wedi ymrwymo dros £2m i helpu i ddarparu band eang gigabeit mewn 270 o adeiladau yng Nghymru, gydag 823 o dalebau RGC eraill ar y gweill.

Blaenoriaeth 3 - Cryfhau ac amddiffyn statws Cymru yn y DU drwy sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar ei lle yn yr Undeb.

Sicrhau bod deddfwriaeth a pholisïau Llywodraeth y DU yn adlewyrchu buddiannau Cymru a'r DU yn ei chyfanrwydd

Gweithiodd y Swyddfa'n agos gyda'r Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), a Swyddfa'r Cabinet (CO) i sicrhau bod deddfwriaeth i ddiogelu Marchnad Fewnol y DU yn diwallu anghenion Cymru. Cyhoeddodd BEIS Bapur Gwyn Marchnad Fewnol y DU ym mis Gorffennaf, a oedd yn gofyn am farn ar ddull y Llywodraeth o sicrhau bod masnach ddi-dor ar draws marchnad fewnol y DU yn cael ei gynnal ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio. Cynhaliodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru nifer o drafodaethau bord gron rhithiol gyda busnesau a sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau yng Nghymru ar 16 Gorffennaf a 10 Awst, yn ogystal â sesiwn yng Nglannau Dyfrdwy gydag Ysgrifennydd Gwladol BEIS ar 3 Awst. Roedd y sesiynau hyn yn tynnu sylw at y gefnogaeth eang yng Nghymru i fesurau i warantu dim rhwystrau masnachu mewnol ar ôl ymadael â'r UE.

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i'r ymgynghoriad ochr yn ochr â chyflwyno Bil Marchnad Fewnol y DU i Senedd y DU ar 9 Medi. Roedd y Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau a oedd yn galluogi gweinidogion Llywodraeth y DU i roi cymorth ariannol mewn rhai meysydd polisi datganoledig, gan gynnwys datblygu economaidd, seilwaith a diwylliant a chadarnhaodd y bydd yn cadw rheolaeth dros gymorthdaliadau.

Parhaodd y Swyddfa i gefnogi BEIS a CO i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd. Arweiniodd yr ymgysylltu hwn at gyflwyno diwygiadau i fynd i'r afael â nifer o bryderon a oedd wedi cael eu codi. Roedd y rhain yn cynnwys rhwymedigaeth ar Ysgrifennydd Gwladol BEIS i geisio cydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig pan wneir penodiadau panel i Swyddfa'r Farchnad Fewnol. Er gwaethaf yr ymgysylltiad cadarnhaol hwn, ar 9 Rhagfyr gwrthododd y Senedd Cymru gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil. Fodd bynnag, roedd angen i'r Llywodraeth fwrw ymlaen â'r Bil i gael Cydsyniad Brenhinol er mwyn sefydlu sail gyfreithiol ddibynadwy ar

gyfer gweithrediad effeithiol a chydlynol marchnad fewnol y DU y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

Ym mis Ionawr, gwnaeth Llywodraeth Cymru gais ffurfiol am Adolygiad Barnwrol o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Mae Llywodraeth y DU yn gwrthod hawliadau Llywodraeth Cymru yn gryf ac mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wrth baratoi ei hymateb.²

Parhaodd y Swyddfa i weithio gyda thimau biliau ar Filiau allweddol yn ymwneud â gadael yr UE a gâi effaith ar Gymru. Yn ystod y flwyddyn hon, cafodd Deddf Amaethyddiaeth 2020 a Deddf Pysgodfeydd 2020 Gydsyniad Brenhinol gyda chydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru. Rhoddodd Senedd Cymru ei chydsyniad i'r Bil Masnach hefyd. Roedd y Swyddfa hefyd yn cefnogi ymgysylltu rhwng llywodraethau ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020. O ystyried cyflymder llwybr y Bil drwy'r Senedd – er mwyn sicrhau Cydsyniad Brenhinol cyn diwedd y Cyfnod Pontio – nid oedd Senedd Cymru yn ystyried cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil.

Hyrwyddo a chefnogi ymgysylltu cynhyrchiol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

Mae'r Swyddfa wedi gweithio i sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn ganolog i'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn ystyried yr Undeb a bu'n llais cryf i Gymru o fewn y Llywodraeth. Mae Gweinidogion a swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'u cymheiriaid i fwrw ymlaen â ffrydiau gwaith allweddol ar yr Undeb. Yn benodol, mae'r Swyddfa wedi cefnogi Swyddfa'r Cabinet yn ei gwaith i ddiwygio'r strwythurau sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, yn ogystal â gwaith i ddod i gytundeb ar Fframweithiau Cyffredin mewn meysydd cymhwysedd datganoledig sy'n dychwelyd o'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

Cyfarfu Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i dîm Gweinidogol yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru, ill dau gyda'i gilydd ac yn ehangach fel rhan o bwyllgorau Cabinet y DU a'r Pwyllgorau Rhynglywodraethol, gan gynnwys y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Trafodaethau'r UE), a gadeirir gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru i sicrhau bod setliad datganoli Cymru yn gweithredu'n effeithiol, a bod deddfwriaeth y Senedd yn adlewyrchu'r ffin ddatganoli.

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021

Ym mis Rhagfyr, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021.

Gwnaeth y Gorchymyn addasiadau i Atodlenni 7A a 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yr oedd eu hangen yn bennaf o ganlyniad i ymadael â'r UE. Roedd hyn yn cynnwys dileu cyfeiriadau yn Atodlen 7A nad oeddent yn berthnasol mwyach ar ddiwedd y Cyfnod Pontio a gwneud mân gywiriadau eraill i'r ddwy Atodlen. Yn bwysicaf oll, roedd y Gorchymyn yn diwygio Atodlen 7B i alluogi'r Senedd Cymru i allu

² Ar 19 Ebrill 2021 gwrthododd yr Uchel Lys ganiatâd ar gyfer cais Llywodraeth Cymru am Adolygiad Barnwrol.

dileu rhai o swyddogaethau Gweinidogion y Goron sy'n cael eu harfer ar yr un pryd gan Weiniogion Cymru heb fod angen cytundeb Llywodraeth y DU i wneud hynny.

Cafodd y Gorchymyn ei drafod yn Nhŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ar 27 Ionawr a 2 Chwefror yn y drefn honno, a chafodd ei gymeradwyo gan Senedd Cymru ar 2 Chwefror. Gwnaed y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ym mis Mawrth.

Deddf Cymru 2014

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y chweched adroddiad ar weithredu'r darpariaethau cyllidol yn Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru bob blwyddyn adrodd ar gynnydd i Senedd y DU a Senedd Cymru. Cyhoeddir y seithfed adroddiad, yr un terfynol, ym Mai 2021.

Sicrhau bod llais cryf Cymreig wrth galon yr Undeb

Mae'r Rhaglen Llefydd ar gyfer Twf yn gyfrifol am gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i adleoli 22,000 o swyddi gwasanaeth sifil o Lundain a de ddwyrain Lloegr erbyn 2030. Mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos gyda'r Tîm Llefydd ar gyfer Twf yn Swyddfa'r Cabinet ac adrannau Llywodraeth y DU i sicrhau bod ganddynt bresenoldeb cryf yng Nghymru. Prif ffocws y gwaith hwn fu sicrhau presenoldeb buan yn Hyb Caerdydd gan nifer o adrannau allweddol sy'n ganolog i gyflawni blaenoriaethau polisi yng Nghymru. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys y Swyddfa sy'n cefnogi'r Tîm Llefydd ar gyfer Twf i ddatblygu Caerdydd ac Abertawe yn lleoliadau Hyb Llywodraeth y DU.

Hyb Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd

Mae'r Swyddfa wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer Hyb newydd Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd. Enw'r adeilad yw Tŷ William Morgan ac mae wedi'i leoli yn y Sgwâr Canolog yng nghanol Caerdydd.

Mae'r Hyb yn dod â thros 4,000 o weision sifil Llywodraeth y DU at ei gilydd o dan yr un to ac yn dangos pa mor bwysig yw Cymru i amcanion Llywodraeth y DU o ran codi'r gwastad a llefydd ar gyfer twf. Cyllid a Thollau EM (HMRC) sy'n gyfrifol am y Ganolfan fel ei phrif ddeiliad, a bydd yr adeilad hefyd yn cynnwys staff o nifer o adrannau ac asiantaethau eraill Llywodraeth y DU, gan gynnwys Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Swyddfa'r Cabinet, yr Adran Waith a Phensiynau a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CCMA).

Mae'r Swyddfa'n gweithio i annog y rhan fwyaf o adrannau Llywodraeth y DU i leoli staff yn yr Hyb yn ystod 2021. Rydym yn cefnogi'r Weinyddiaeth dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i sefydlu Tîm Ardal newydd ar gyfer Cymru yn y Ganolfan. Mae'r Swyddfa hefyd yn dal i gefnogi'r Adran Fasnach Ryngwladol (DIT) i sefydlu ei Hyb Masnach a Buddsoddi ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol yng Nghaerdydd ar 23 Mawrth 2021.

Yn ystod 2020-21, bu'r Swyddfa'n gweithio'n agos gyda HMRC ar gynigion i frandio'r adeilad yn allanol ac yn fewnol – gan gynnwys cynlluniau ar gyfer baner yr Undeb fel

rhan o'r brandio allanol – ac ar elfennau o'r gwaith mewnol, gan gynnwys canolfan ar gyfer Ysgrifennydd Gwladol Cymru a lle i gynnal cyfarfodydd Cabinet y DU.

Agorodd y Ganolfan newydd ym mis Chwefror 2021, ond oherwydd cyfyngiadau COVID-19 mae pawb oddieithr ychydig o weithwyr hanfodol yn dal i weithio gartref.

Pan fydd y cyfyngiadau'n llacio, a phan fydd pobl yn gallu gweithio yn yr Hwb, rydyn ni'n edrych ymlaen at weld Tŷ William Morgan yn ganolbwynt ar gyfer amlygrwydd ac ymgysylltiad Llywodraeth y DU yng Nghymru. Rydyn ni'n dal i weithio'n agos gyda holl adrannau Llywodraeth y DU gyda'r nod o leoli'r rhan fwyaf o staff yn yr Hyb yn ystod 2021.

Cefnogi buddiannau diwylliannol Cymru yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol

Mae'r Swyddfa wedi ymrwmo i gefnogi a hyrwyddo buddiannau diwylliannol Cymru yng Nghymru a thu hwnt. Oherwydd y pandemig coronafeirws, nid yw digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi bod yn bosibl, a symudodd y dirwedd at drafodaethau bwrdd crwn mwy hanfodol sy'n canolbwyntio ar fusnes, gyda'r angen i ddarparu gwybodaeth hanfodol am iechyd y cyhoedd a chymorth busnes. Fodd bynnag, ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ac Wythnos Cymru eleni, cefnogodd y Swyddfa amrywiaeth eang o ddiwyddiadau a chynnwys digidol. Roedd y rhain yn cynnwys negeseuon fideo gan filwyr o bob cwr o'r byd, a Llysgenhadon mewn gwahanol swyddi. Yn ogystal â hynny, cafwyd perfformiad arbennig, gogoneddus gan Gerddorfa Genedlaethol Cymru.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Swyddfa'n annog y defnydd o'r Gymraeg mewn trafodaethau cyhoeddus ac mae wedi sicrhau bod swyddogion ar draws Llywodraeth y DU yn gallu cael hyfforddiant iaith Gymraeg.

Ehangu presenoldeb a chyfraniad y Lluoedd Arfog a'r diwydiant amddiffyn yng Nghymru

Mae'r Swyddfa wedi gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar eu hymrwymiad i gynnal presenoldeb cryf y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Ym mis Ionawr, cadarnhaodd y Weinyddiaeth Amddiffyn y bydd Brigâd 160 y Troedfilwyr a'r Pencadlys yn aros yn Aberhonddu. Bydd presenoldeb sylweddol gan y Lluoedd arfog yn cael ei gynnal yn Sain Tathan. Mae'r Fyddin hefyd wedi ymrwmo i symud uned Byddin Rheolaidd fawr i Gymru, ac mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dal i archwilio'r opsiynau i leoli ail uned fawr yng Nghymru.

Blaenoriaeth 4: Sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn wrth i'r DU fanteisio ar gyfleoedd diwedd y Cyfnod Pontio.

Drwy gydol 2020, bu'r Swyddfa'n gweithio'n agos gydag adrannau a thimau ar draws y Llywodraeth i baratoi Cymru ar gyfer diwedd Cyfnod Pontio'r UE a'r DU yn wlad fasnachu annibynnol o 2021 ymlaen. Roedd y rhain yn cynnwys Defra, HMRC, y Tasglu Trawsnewid yn Swyddfa'r Cabinet a Thasglu Ewrop yn Rhif.10. Buom hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol yng Nghymru i baratoi ar gyfer y newidiadau.

Dyma'r agweddau pwysicaf ar ein gwaith:

- Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn llais cryf dros Gymru yn gwasanaethu ar Bwyllgor y Cabinet, a oedd yn rheoli ac yn cydlynu gweithrediadau ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio. Drwy gydol yr hydref a dechrau'r gaeaf, cyfarfu'r Pwyllgor sawl gwaith bob wythnos, ac yn aml bob dydd, i sicrhau bod y DU wedi paratoi'n llawn ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

Esblygodd gwaith y Pwyllgor ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio i oruchwylio; monitro a rheoli unrhyw darfu a cheisio datrys materion strategol yn y trefniadau newydd. Roedd pryder y gallai cyflwyno rheolaethau ffiniau newydd achosi trafferthion sylweddol ar ffiniau rhwng Prydain a'r Undeb Ewropeaidd ar ddechrau 2021. Yn ymarferol, cyfyngedig oedd y trafferthion er bod llif y traffig ym mhorthladdoedd Cymru wedi lleihau'n sylweddol ac ni adferwyd y llif ar yr un cyflymder â'r llif yn y rhan fwyaf o borthladdoedd eraill y DU. Gweithiodd swyddogion gyda chydweithwyr ar draws y Llywodraeth i nodi'r prif resymau dros y gostyngiad hwn ac yn benodol i ba raddau yr oedd yn gysylltiedig â chyfyngiadau COVID-19 a diwedd y Cyfnod Pontio.

- Gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru i gynllunio'r seilwaith ar y ffin i'w adeiladu ym mhorthladdoedd *roll-on-roll-off* Cymru. Mae angen y seilwaith ar gyfer archwiliadau ar y ffin – archwiliadau glanweithdra a ffytoiechydol (SPS) ac archwiliadau tollau ar bwyntiau mynediad i'r DU pan fydd rheolaethau mewnfario'n cael eu rhoi ar waith³. Bydd archwiliadau SPS yn cael eu cynnal mewn Safleoedd Rheoli'r Ffin (BCPs) a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hyn oherwydd ei fod yn gyfrifoldeb datganoledig.
- Cynhelir archwiliadau tollau mewn Canolfannau Ffin Mewndirol (IBFs) lle nad oes digon o le ar gael yn y porthladd a Llywodraeth y DU (HMRC) sy'n gyfrifol am hyn. Bydd gan borthladd Caergybi IBF a BCP ac mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos i'w cynllunio. Bydd gan borthladdoedd Sir Benfro (Abergwaun a Doc Penfro) gyfleusterau BCP y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Swyddfa'n parhau i weithio'n agos gyda HMRC a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod systemau ar waith mewn pryd ar gyfer cyflwyno rheolaethau mewnfario.
- Trafod diwedd y Cyfnod Pontio gyda busnesau a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru, gan sicrhau eu bod yn gwbl barod ar gyfer y newidiadau sydd i ddod. Ddiwedd 2020, fe wnaeth y Swyddfa weithredu rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu â busnesau yng Nghymru. Nodir manylion y rhaglen hon yn y blwch isod.

Ymgysylltu â Busnesau Cymru ar Drefniadau Pontio'r UE

Cynhaliodd Gweinidogion y Swyddfa raglen ddwys o weminarau a thrafodaethau bwrdd crwn gyda busnesau Cymru yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020 wrth i'r Cyfnod Pontio ddod i ben.

Nod y rhaglen oedd ymgysylltu â busnesau ledled Cymru i'w hannog i baratoi ar gyfer y newidiadau y byddai diwedd y Cyfnod Pontio yn eu cyflwyno ac egluro'r

³ Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 11 Mawrth 2021 y bydd angen ardystio cynhyrchion anifeiliaid a fewnforir o fis Hydref 2021 ymlaen, a bydd angen datganiadau tollau ar gyfer yr holl nwyddau safonol o fis Ionawr 2022 ymlaen.

cyngor, y gefnogaeth a'r arweiniad sydd ar gael i gwmnïau ar gov.uk a gwefannau partneriaid rhanbarthol a lleol.

Yn y rhaglen hon:

- Cynhaliodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru bedair gweminar a fynychwyd gan 600 o gwmnïau o Gymru.
 - Roedd un weminar yn canolbwyntio'n benodol ar y system fewnfudo newydd ar sail pwyntiau ac fe'i cynhaliwyd ar y cyd â'r Swyddfa Gartref.
 - Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidog Cymru dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y cyd ar 3 Rhagfyr at gwmnïau yng Nghymru gan eu hannog i baratoi ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio.
 - Cafodd y bedwaredd weminar a'r un olaf ei chynnal ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidog Cymru, gan ddangos y cydweithio agos rhwng y ddwy Llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud â phontio wrth adael yr UE.
 - Cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol chwe chyfarfod bwrdd crwn. Roedd pob trafodaeth yn canolbwyntio ar sector penodol yr oedd diwedd y cyfnod pontio yn effeithio arno ac fe'i cadeiriwyd gan bartner lleol o un o'r prif sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau yng Nghymru.
 - Roedd y rhain yn cynnwys y sectorau adeiladu a bwyd-amaeth, a microfusnesau. Roedd Ysgrifennydd Gwladol Defra hefyd yn bresennol yn y cyfarfod i drafod bwyd-amaeth.
 - Roedd y trafodaethau bord gron yn annog trafodaeth fanwl ynghylch sut byddai Trefniadau Pontio wrth adael yr UE yn effeithio ar sectorau penodol a sut gallai cwmnïau yn y sectorau hynny gynllunio i liniaru'r effaith ar eu busnes.
-
- Bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd yn briffio rhanddeiliaid busnes allweddol ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ar 24 Rhagfyr 2020. Cynhaliodd ddwy drafodaeth bord gron gyda rhanddeiliaid ar 29 Rhagfyr a 19 Ionawr i drafod prif bwyntiau'r Cytundeb, i fesur ymateb busnesau Cymru wrth i'r trefniadau masnachu newydd ddechrau dod i rym er mwyn gallu rhoi adborth ar safbwyntiau a materion i drafodaethau'r Cabinet.
 - Cyfarfu'r Tîm Gweinidogol â Gweinidogion Cymru, undebau'r ffermwyr ac aelodau eraill o gymuned ffermio Cymru a'u sefydliadau cynrychioliadol i esbonio sut roedd y Llywodraeth yn cyflawni ei hymrwymiad maniffesto i gynnal y gyllideb flynyddol bresennol ar gyfer ffermwyr ar draws y Deyrnas Unedig ym mhob blwyddyn o'r Senedd hon. Cafodd y gyllideb hon ei chadarnhau ar gyfer 2021-22 yn Adolygiad o Wariant 2020, a chyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr achos i Weinidogion Cymru gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth ar y sail hon.
 - Gweithiodd y Swyddfa gyda Defra i gefnogi ein diwydiant pysgota, yn enwedig y sectorau sy'n allforio bwyd môr byw a darfodedig. Cafodd rhai cwmnïau yn y

sectorau hyn broblemau wrth allforio yn gynnar yn 2021 oherwydd effeithiau addasu i'n perthynas fasnachu newydd â'r UE. Bu swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Defra i gefnogi'r sectorau gyda'r Cynllun Tarfu Bwyd Môr a'r Gronfa Ymateb Bwyd Môr sy'n werth £23 miliwn ledled y DU.

Roedd y sector pysgod cregyn yn wynebu problemau penodol wrth allforio i'r UE ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio. Gwaherddir allforion molysgiaid deufalf byw (megis cregyn gleision) o'r DU i'r EU oni bai fod y molysgiaid yn cael eu cynaeafu mewn dyfroedd Dosbarth A. Roedd y gwaharddiad hwn yn effeithio ar gynhyrchwyr pysgod cregyn Cymru, gan gynnwys y rheini yn y Ffenai ac o'i chwmpas. Ymgysylltodd ein tîm Gweinidogol â chydweithwyr yn Defra i edrych ar opsiynau i gefnogi'r diwydiant. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

- Ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben, bu Gweinidogion a swyddogion yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o gwmnïau yng Nghymru a oedd yn cael anawsterau cychwynnol wrth barhau i fasnachu â'r UE a Gogledd Iwerddon. Roedd hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â dogfennau mewnfario/allforio, grwpio a thariffau. Cyfarfu Gweinidogion a swyddogion hefyd â sectorau penodol i drafod materion sy'n ymwneud â masnachu yn yr UE a Gogledd Iwerddon. Er enghraifft, cyfarfu'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol â chlodwyr yng Nghymru ym mis Mawrth 2021 a thrafod gwahanol agweddau ar Brotocol Gogledd Iwerddon.

Cronfeydd Twf Lleol

Gweithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth (y Weinyddiaeth dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn benodol) ar strwythur a darpariaeth cronfeydd twf lleol i gymryd lle Cronfeydd Strwythurol yr UE o fis Ebrill 2021-22 ymlaen. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Gronfa Codi'r Gwastad yng Nghyllideb 2020 ym mis Tachwedd. Bydd y Gronfa'n buddsoddi £4.8 biliwn mewn seilwaith lleol uchel ei werth dros y pedair blynedd nesaf tan 2024-25, a bydd o leiaf £800 miliwn ohono'n cael ei fuddsoddi yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn y rownd gyntaf o gyllid, bydd o leiaf 5% o gyfanswm dyraniadau'r DU yn cael eu neilltuo ar gyfer Cymru.

Cyhoeddodd y Llywodraeth hefyd Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU (UKCRF), cronfa gwerth £220 miliwn ar gyfer y DU gyfan sy'n buddsoddi mewn sgiliau, mentergarwch a chyflogaeth. Bydd UKCRF yn helpu ardaloedd lleol i baratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) a fydd yn cael ei lansio yn 2022. Wrth i Gronfeydd Strwythurol yr UE ddod i ben ar ôl 2022-23, bydd UKSPF yn eu holynu fel rhaglen sy'n wahanol i Gronfa Risg Gymdeithasol y DU i helpu i gynyddu a chreu cyfleoedd ledled y DU mewn llefydd sydd â'r angen mwyaf mewn modd sy'n wahanol ond yn ategol i'r Gronfa.

Yn 2018, sicrhodd y Llywodraeth y bydd ceisiadau llwyddiannus am gyllid yr UE tan ddiwedd 2020 (diwedd y Cyfnod Pontio) yn cael eu dyraniad ariannol llawn ac yn parhau i gael cyllid dros oes prosiectau. Roedd manifesto 2019 y Llywodraeth hefyd yn ymrwymo y byddai cyllid i ddisodli Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru yn cyfateb fan leiaf i faint cronfeydd yr UE. Mae hyn yn golygu y bydd Cymru, yn ymarferol, yn derbyn o leiaf y £375 miliwn y flwyddyn o gyllid a dderbyniwyd yn ystod cyfnod cyllid diwethaf yr UE (2014-2020). Wrth i'r gwariant o Gronfeydd Strwythurol

yr UE ostwng dros y blynyddoedd nesaf, bydd y cyllid sydd ar gael i Gymru o gronfeydd twf lleol yn cynyddu i gyflawni ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth.

Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi cael eu cydnabod ers tro byd fel elfen bwysig o gyllid adfywio ac adnewyddu yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Gweithiodd y Swyddfa'n agos iawn gyda'r MHCLG, Trysorlys EM ac adrannau eraill y Llywodraeth wrth i strwythurau cyflawni'r ddwy gronfa gael eu pennu. Roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i dîm Gweinidogol wedi ymgysylltu â Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru a phartïon eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys is-gangellorion prifysgolion Cymru yn dilyn cyhoeddiad y Gyllideb i'w briffio ar y cynigion a gwrando ar safbwyntiau ac adborth ynghylch y cronfeydd newydd a sut y byddent yn gweithio yn fwyaf effeithiol

Cyhoeddodd y llywodraeth brosbectysau ar gyfer yr LUF⁴ a'r UKCRF⁵ ar 3 Mawrth 2021, gan wahodd bidiau dan arweiniad awdurdodau lleol ar gyfer pob cronfa i gael eu cyflwyno erbyn 18 Mehefin. Ynghyd â'r prosbectysau cyhoeddwyd manylion y meysydd blaenoriaeth ar gyfer dyrannu'r LUF⁶ a'r CRF a nodiadau ar y methodolegau a ddefnyddiwyd i nodi'r meysydd blaenoriaeth hynny. Cyhoeddwyd y ddau brosbectws yn ddwyieithog.

Yn dilyn eu cyhoeddi, mae ein swyddogion wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y MHCLG i ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru a phartneriaid lleol eraill ar y broses ymgeisio. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r MHCLG wrth i'r adran sefydlu ei Thîm Ardal yng Nghymru, sydd wedi'i leoli yn Hyb Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd (gweler adran 11 yr adroddiad hwn).

Mae'r Swyddfa hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Addysg i ddeall sut y bydd Cynllun Turing yn gweithredu yng Nghymru. Cynllun Turing yw cynllun Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid ar gyfer cyfleoedd addysg a hyfforddiant ledled y byd fel rhan o agenda Prydain Fyd-eang y Llywodraeth. Mae'n cymryd lle rhaglen Erasmus+ yr UE ar gyfer myfyrwyr yn y DU. Bydd y Swyddfa'n parhau i weithio i sicrhau bod Cymru'n elwa'n llawn o Gynllun Turing a bod myfyrwyr o Gymru yn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'n eu cynnig.

Tîm Paratoi ar gyfer y Gaeaf

Sefydlodd y Swyddfa Dîm Paratoi ar gyfer y Gaeaf bach ym mis Hydref 2020 i arwain a chydlynu ein gwaith ar faterion sy'n codi yn y gaeaf, gan gynnwys unrhyw darfu sy'n deillio o ddiwedd y Cyfnod Pontio, COVID-19 yn ailgodi ac ymateb i dywydd gaeafol difrifol, gan gynnwys llifogydd. Roedd y tîm yn rhan o strwythur ymateb a oedd yn cynnwys holl adrannau'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig, gan sicrhau bod trafodaethau Gweinidogol ar ôl y cyfnod Pontio, yn cynnwys Pwyllgorau COBR ac XO, yn seiliedig ar ddata cynhwysfawr. Daeth y tîm i ben fel y cynlluniwyd ddiwedd mis Mawrth.

4 <https://www.gov.uk/government/publications/levelling-up-fund-prospectus>

5 <https://www.gov.uk/government/publications/uk-community-renewal-fund-prospectus>

6 <https://www.gov.uk/government/publications/levelling-up-fund-additional-documents>

Ymateb i COVID-19

Symudodd y Swyddfa'n gyflym a phendant i ailstrwythuro mewn ymateb i gyhoeddiad y Prif Weinidog am gyfnod clo cenedlaethol ar 23 Mawrth 2020 i helpu i leihau trosglwyddiad y coronafeirws. Fe wnaethom atal ein holl waith busnes arferol oni bai nad oedd modd gwneud hynny a chanolbwyntio ein hymdrechion ar y frwydr yn erbyn COVID-19.

Fe wnaethom greu un tîm dan arweiniad uwch arweinydd yn y Swyddfa i weithio gydag adrannau eraill Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartneriaid ledled Cymru ar amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â'r ymateb i COVID-19 yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gweithio i sicrhau bod Cymru'n elwa o gapasiti caffael a phŵer prynu Llywodraeth y DU. Er enghraifft, wrth sicrhau bod Cymru yn cael y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yr oedd ei angen i gadw gweithwyr rheng flaen yn ddiogel yn ystod y pandemig.
- Gweithio law yn llaw â Llywodraeth Cymru i sicrhau ymateb diwriad gan y Llywodraeth i'r pandemig. Cyfarfu Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i dîm Gweinidogol â Phrif Weinidog Cymru a Gweinidogion Cymru yn aml yn ystod y cyfyngiadau symud i sicrhau ymateb eang ledled y DU i'r pandemig. Cafodd Gweinidogion Cymru eu gwahodd hefyd i Grwpiau Gweithredu Gweinidogol Llywodraeth y DU a oruchwyliai ar sail sectoraidd, ymatebion y Llywodraeth i COVID-19 yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf – gan gynnwys y Grant Gwella Iechyd, a gadeirid gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a'r Grŵp Gweithredu ar yr Economi, a gadeirid gan Ganghellor y Trysorlys.
- Cymeradwyo ceisiadau gan Lywodraeth Cymru am gymorth gan luoedd arfog y DU i ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Disgrifir rôl y Swyddfa yn cymeradwyo ceisiadau, drwy'r broses Cymorth Milwrol i Awdurdodau Siflaidd (neu MAC) yn fanylach dros y dudalen.
- Gweithio gyda'r Swyddfa Dramor a Materion y Gymanwlad (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu erbyn hyn) i sicrhau bod pobl sy'n byw yng Nghymru yn gallu dychwelyd adref fel rhan o raglen Llywodraeth y DU i ddychwelyd dinasyddion y DU sydd dramor yn ystod y cyfyngiadau symud.
- Darparu cyngor ac arweiniad i fusnesau yng Nghymru, gweithwyr a phobl hunangyflogedig mewn amrywiaeth eang o sectorau busnes a'r cyhoedd yn gyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys cyngor ar sut i gael mynediad at gynlluniau cymorth Llywodraeth y DU ar gyfer busnesau a gweithwyr – er enghraifft, y Cynllun Benthyciadau Busnes Coronafeirws (CBILS), y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (ffyrlo) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEIS). Mae rhagor o wybodaeth am wariant Llywodraeth y DU yng Nghymru yn 2020-21 drwy'r cynlluniau hyn yn Nhabl 1 isod.
- Ymateb i lawer iawn o ohebiaeth am y pandemig gan fusnesau ac unigolion yng Nghymru, gan gynnwys llawer yn gofyn am gyngor ac arweiniad ar agweddau penodol ar y cyfyngiadau a manylion cynlluniau cymorth Llywodraeth y DU. Cyflwynodd y tîm Gweinidogol sylwadau i Weinidogion Cymru ar ran

busnesau sy'n gweithredu mewn sectorau datganoledig allweddol yn economi Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys y sector twristiaeth a lletygarwch, gan ofyn am eglurhad ynghylch llacio cyfyngiadau COVID-19 dros yr haf a'r sector manwerthu, mewn perthynas â chyfyngiadau Llywodraeth Cymru ar ryddhad Ardrethi Busnes.

Tabl 1: Cynlluniau Cymorth Busnes COVID-19 Llywodraeth y DU yng Nghymru		
Cynllun	Nifer y Derbynyddion yng Nghymru	Cyfanswm y gwariant yng Nghymru
Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (Ffyrlo)	463,000 o swyddi	Amh.
Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth (SEISS)	295,000 o hawliadau	£757m
Cynllun benthyciadau Bounce Back	55,094 o fenthyciadau	£1,500m
Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (CBILS)	2,228 o fenthyciadau	£503m

Wrth i bwysau uniongyrchol y don gyntaf o'r pandemig gilio drwy ddiwedd mis Mai a mis Mehefin, dychwelodd mwy o staff i waith busnes fel arfer brys, gan gynnwys gwaith ar gytundebau masnach ryngwladol a chynllunio ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio ddiwedd 2020. Fe wnaeth y Swyddfa ddirwyn ei thîm ymateb i COVID-19 i ben yn ffurfiol ganol mis Mehefin, gyda gwaith ar ymateb i COVID-19 yn cael ei brif-ffrydio gyda blaenoriaethau craidd eraill y Swyddfa.

Yn ystod gweddill 2020 a hyd at 2021, roedd y tîm Gweinidogol wedi parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Cabinet a Gweinidogion Cymru ar ymateb y DU i COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd o bwyllgor perthnasol y Cabinet a chyfarfodydd wythnosol rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig dan gadeiryddiaeth Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn.

Ddiwedd 2020 a dechrau 2021, bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymgysylltu â'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Defnyddio Brechlyn COVID-19, a'r Swyddfa gyda'r Tasglu Brechlyn, i gadarnhau y byddai Cymru'n cael ei chyfran deg o'r brechlyn COVID-19 yn unol â dull y DU o roi brechlyn. Cadarnhaodd yr ymgysylltu y byddai Cymru'n cael cyfran o'r brechlynnau sy'n gymesur â Fformiwla Barnett.

Drwy gydol y flwyddyn, gweithiodd ein tîm Gweinidogol yn galed i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Senedd am waith y Swyddfa ar ymateb i COVID-19. Cynhaliodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyfarfodydd rheolaidd gydag ASau sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru ar ymateb i COVID-19 a llawer o faterion eraill. Rhoddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig bedair gwaith yn ystod 2020-21 ar ymateb y Llywodraeth i Covid ac amrywiaeth o faterion penodol eraill. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn dystiolaeth ar y cyd ar fasnach ryngwladol ar

2 Tachwedd gyda'r Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach yn yr Adran Fasnach Ryngwladol.

Rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dystiolaeth hefyd i Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021 ac i sesiwn ar y cyd rhwng Pwyllgor Cyfansoddiad a Materion Deddfwriaethol y Senedd a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 30 Mehefin. Ym mis Ebrill 2020, yr Ysgrifennydd Gwladol oedd y Gweinidog cyntaf erioed i siarad yn siambr Tŷ'r Cyffredin drwy gyswllt o bell, yn y sesiwn gwestiynau llafar cyntaf am Gymru a gynhaliwyd o bell.

Yr ymateb i COVID-19: Cymorth y Lluoedd Arfog y DU yng Nghymru

- Cymorth Milwrol i'r Awdurdodau Sifil (MACA) yw'r term torfol a ddefnyddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a gweinyddiaethau'r DU yn fwy cyffredinol i ddisgrifio'r defnydd o luoedd arfog y DU i gefnogi awdurdodau sifil.
- Mae MACA wedi cael ei ddefnyddio yn ystod COVID-19 i ddefnyddio Lluoedd Arfog y DU i gefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.
- Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cymeradwyo pob cais MACA gan Lywodraeth Cymru, gweithio'n agos gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn a'r Gweinidog dros y Lluoedd Arfog wrth wneud hynny. Yn 2020-1, cymeradwyodd yr holl geisiadau o fewn 24 awr o'u derbyn.
- Cefnogodd bron i 300 o staff milwrol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn ystod y pandemig, gan ddarparu gyrwyr ambiwlans, cynllunwyr logistaidd a swyddogion brechu i weithio ochr yn ochr â gweithwyr iechyd proffesiynol Cymru.
- Mae proses MACA yn enghraifft wych o sut mae bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig wedi bod o fudd uniongyrchol i Gymru drwy'r pandemig COVID-19.

Ariannu Ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19


Dangosodd Llywodraeth y DU hyblygrwydd na welwyd ei debyg o'r blaen wrth ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer y frwydr yn erbyn COVID-19. Cafodd Llywodraeth Cymru £5.85 biliwn ychwanegol yn 2020-21 i fynd i'r afael â'r pandemig.

Darparodd Trysorlys EM warant cyllido i bob gweinyddiaeth ddatganoledig am y tro cyntaf. Fel arfer, bydd unrhyw newidiadau i gyllid y gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu cadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y warant cyllido, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2020, yn golygu bod gan bob gweinyddiaeth ddatganoledig y sicrwydd i wario'n syth hyd at y swm a warantwyd, gan roi mwy o sicrwydd a hyblygrwydd ariannol iddynt wario ar flaenoriaethau yn ystod y pandemig, fel y GIG a chefnogi busnesau. Mae Tabl isod yn nodi'r cynnydd yng nghyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru drwy 2020-21, gan gynnwys cynnydd yn y gwarant cyllido o fis Gorffennaf 2020 ymlaen.

Hefyd, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ragor o hyblygrwydd cyllido er mwyn i Lywodraeth Cymru barhau â'r frwydr yn erbyn COVID-19 yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Ym mis Chwefror, cymeradwyodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys fod Llywodraeth Cymru yn gallu cario £650 miliwn ymlaen mewn cyllid hyblyg – arian nad oedd Llywodraeth Cymru wedi'i wario ar ei hymateb i COVID-19 yn 2020-21 – yn ogystal ag unrhyw ryddhad ardrethi busnes di-dâl. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bwriad i gario'r swm llawn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae hyn yn ychwanegol at y £2.4 biliwn o gyllid ychwanegol y mae Llywodraeth y DU wedi'i ddyfarnu i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, ar ben ei Grant Bloc sylfaenol i Gymru o £15 biliwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gallu penderfynu faint o'r cyllid hwn i'w wario ar ymateb i Covid19 a'r adferiad a faint i'w wario ar ei blaenoriaethau eraill.

Drwy gydol 2020-21, roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi argymhell cynnydd teg yng nghyllid Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â COVID-19 ac roedd wedi pwysu ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod yr arian ychwanegol yn cael ei wario'n ddi-oed ar bobl a busnesau yng Nghymru y mae'r pandemig wedi cael effaith niweidiol arnynt.



Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomenni Glo

Mae'r Swyddfa wedi gweithio law yn llaw â Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn adrodd ar fater sensitif cynnal a chadw ac adfer tomenni glo yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gynnal ac adfer tomenni glo, ond mae glo yn ehangach yn faes sydd wedi'i gadw'n ôl. Cynhaliodd Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Glo a phartneriaid lleol ddwy uwchgynhadledd diogelwch glo ar

4 Awst a 22 Rhagfyr⁷ i adolygu'r gwaith a wnaed gan y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo. Cafodd y Tasglu ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn sgil tirlithriad Pendyrus ym mis Chwefror 2020 i arwain y gwaith ar ddiogelwch tomenni glo.

Edrychodd yr uwchgynadleddau ar:

- Y gwaith a wnaed gan yr Awdurdod Glo a rhai awdurdodau lleol yng Nghymru i asesu'r risgiau diogelwch a achosir gan domenni gwastraff yng Nghymru, ac i nodi'r rhai a oedd yn peri risg uchel o ansefydlogrwydd. Dyma'r tro cyntaf i'r holl domenni gwastraff yng Nghymru gael eu hasesu mewn ffordd safonol.
- Archwiliadau o domenni risg uchel gan yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol perthnasol. Cynhaliwyd yr archwiliadau rhwng mis Hydref 2020 a mis Chwefror 2021. Roedd tirlithriad Aberllechau ar 19 Rhagfyr yn tanlinellu'r angen brys am yr archwiliadau hyn.

Roedd y Swyddfa'n gweithio'n agos gyda Thrysorlys EM a Llywodraeth Cymru i sicrhau y gellid cymeradwyo hawliad Llywodraeth Cymru o £31 miliwn ar Gronfa Wrth Gefn y DU⁸. Roedd yr hawliad yn ymwneud â gwaith atgyweirio llifogydd hanfodol yn dilyn y stormydd dwys yn ystod gaeaf 2020. Defnyddiwyd £9 miliwn o hwn i ariannu gwaith cynnal a chadw brys hwn ar domenni risg uchel, gan gynnwys gwaith cychwynol ar safle Pendyrus.

Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Weinidog ar y cyd at Aelodau Seneddol ac Aelodau o Senedd Cymru ar 22 Mai 2020 ac eto ar 28 Ionawr 2021 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd y gwaith. Mae'r gwaith agos rhwng y Swyddfa, Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Glo a phartneriaid lleol ar adfer tomenni glo yn parhau yn 2021-22.

Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ymgysylltu â'r Awdurdod Glo a phartneriaid lleol mewn perthynas â llifogydd yn Sgiwen ym mis Ionawr 2021. Roedd y llifogydd yn deillio o fwyngloddfeydd yn yr ardal ac roedd swyddogion yn cadw mewn cysylltiad agos ag asiantaethau perthnasol wrth i'r gwaith fynd rhagddo i ddatrys y problemau yn yr hen bwll glo a glanhau'r ardal leol.

Cyllid a Llywodraethu

Mae pum egwyddor effeithlonrwydd a llywodraethu corfforaethol da yn sail i gyflawni ein pedair blaenoriaeth strategol. Sef: -

- darparu gwerth am arian a rheoli costau yn effeithiol;
- sicrhau rheolaeth ariannol dda, gan ymateb yn gywir ac yn brydlon i ohebiaeth;
- cynnal gweithlu cymwys, llawn cymhelliant.

⁷ Cynhaliwyd yr uwchgynhadledd gyntaf ar ddiogelwch tomenni glo ym mis Chwefror 2020.. Roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn bresennol yng nghyfarfod mis Awst a chynrychiolodd yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol y Swyddfa yn y cyfarfod ar 22 Rhagfyr

⁸ Mae hawliadau ar Gronfa Wrth Gefn y DU yn gysylltiedig â gwariant yn ystod y flwyddyn. Felly roedd y £31 miliwn yn gysylltiedig â gwariant yn 2020-21 yn unig.

- rheoli gwybodaeth yn effeithiol; a
- creu amgylchedd gwaith dymunol.

Rydym yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith wrth gyflawni ein prif weithgareddau corfforaethol.

Cyllid

Gosodwyd cyllideb 2020-21 yr Adran yng Nghylch Gwario 2019.

O'r £22.966 biliwn o setliad Cymru, roedd dyraniad y Swyddfa ar gyfer 2020-21 tua £5 miliwn, a wariwyd yn bennaf ar staff a swyddfeydd, a chyfrifoldebau Adrannol eraill fel ad-daliadau i Arglwydd Raglawiaid Cymru. Dyrannwyd gweddill y setliad (£22.961 biliwn) i Gronfa Gyfunol Cymru.

Y Swyddfa sy'n trefnu trosglwyddo taliadau grant i Gronfa Gyfunol Cymru ond mater i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru yw sut yn union y caiff yr arian hwnnw ei wario ac ar beth. Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i Senedd Cymru am ei defnydd o adnoddau ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am archwilio'r adnoddau hynny.

Effeithlonrwydd

Er mwyn helpu i gyflawni amcanion a heriau'r Adran, mae'r Swyddfa'n parhau i reoli ei gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol, yn unol ag egwyddorion llywodraethu da a darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo'n llwyr i rannu gwasanaethau ac arbenigedd gyda'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill ac adrannau Llywodraeth y DU lle bynnag y bo modd, gyda'r bwriad o fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau arbedion effeithlonrwydd lle bo modd a chryfhau cydnherthedd. Ar hyn o bryd rydym yn rhannu tîm seneddol a chynghorydd diogelwch gyda'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill a gwasanaeth ceisiadau rhyddid gwybodaeth gyda Swyddfa Gogledd Iwerddon. Gan symud ymlaen, rydym wedi sefydlu cynllun peilot lle mae timau cyllid Swyddfa Cymru a'r Alban wedi cael eu huno. Mae'r Swyddfeydd Tiriogaethol hefyd yn bwriadu cynnal adolygiad yn 2021-22 o wasanaethau corfforaethol ar draws y tair adran i bennu i ba raddau y gallai gwaith agosach pellach arwain at enillion effeithlonrwydd.

O ran swyddfeydd, mae gan yr Adran denantiaid (Arglwydd Raglawiaeth Llundain a'r Comisiwn Annibynnol ar gyfer Effaith Cymorth) yn swyddfa Llundain Fawr a Swyddfa'r Cabinet yn Swyddfa Caerdydd a gynhyrchoedd incwm rhent o £117k i'r Adran yn 2020-21 ac sy'n gwneud defnydd mwy effeithlon o'n swyddfeydd. Rydyn ni hefyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd ag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ynghylch ei rhaglen Hybiau ac rydyn ni wedi cytuno mewn egwyddor i symud i Hyb newydd Llywodraeth y DU yng nghanol Caerdydd pan fydd cyfyngiadau pandemig COVID-19 yn cael eu llacio. Mae'r Rhaglen Hybiau'n ceisio defnyddio ystadau wedi'u rhesymoli a rhyddhau tir i leihau costau rhedeg cyffredinol a, lle bynnag y bo modd, lleoli adrannau gyda'i gilydd mewn Hybiau ledled y wlad.

Fel Adran fach, mae gan y Swyddfa agwedd gost-effeithiol a phragmatig tuag at ddarparu ein gwasanaethau corfforaethol mewnol, gan gynnal trefniadau fframwaith a chontractau presennol y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn meysydd fel diogelwch, rheoli cyfleusterau, TG a gwasanaethau ariannol. Mae'r trefniadau a'r contractau hyn yn sicrhau manteision sylweddol i'r Adran o ran arbedion maint ac arbenigedd i'r Adran.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae manylion sut mae rhwymedigaethau pensiwn yn cael eu trin yng nghyfrifon y Swyddfa yn cael eu datgelu yn yr Adroddiad Tâl a Staff ac yn nodyn polisi Cyfrifyddu 1.9

Tryloywder

Mae tryloywder, atebolrwydd a bod yn agored wrth wraidd gwerthoedd craidd y Swyddfa. Daliwyd ati i gyhoeddi llawer iawn o wybodaeth ar gov.uk, gan gynnwys:

- ein gwariant dros £500;
- rhoddion a roddir ac a dderbynnir gan Weinidogion (a chan y Cynghorwyr Arbennig);
- Teithiau tramor Gweinidogion; a
- lletygarwch a dderbynnir gan Weinidogion a'r Cynghorwyr Arbennig.

Yn ystod 2020-21 deliwyd â 101 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth fel y nodir isod.

Disgrifiad	Rhif
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd, O blith y rhain:	101
Atebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn estyniad a ganiateir	100 (99%)
Gofynnwyd am adolygiad Mewnol o'n hatebion	1
Cyfeiriwyd yr ateb gan y sawl a wnaeth y cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth	0

Mae ein perfformiad Seneddol dros 2020-21 yn cael ei grynhoi isod:

Targed	Gwir %
100% o gwestiynau diwrnod a enwyd wedi'u hateb mewn pryd	100%
100% o gwestiynau ysgrifenedig cyffredin yn cael eu hateb mewn pryd	100%

Ein perfformiad o ran delio â gohebiaeth yn ystod 2020-21 oedd:

Targed	Gwir %
Ymdriniwyd â 100% o ohebiaeth o fewn 15 diwrnod	97%

Roedd maint yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn 2020-21 yn fwy na dwbl o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf o ganlyniad i COVID-19. Fodd bynnag, gyda pharhad mewn staffio, hyfforddiant wedi'i dargedu ac adroddiadau rheolaidd, gwelodd y llywodraeth welliant sylweddol o ran cyrraedd targedau ymateb, gan gynyddu'n gyffredinol o 68% yn 2019-20 i 97% yn 2020-21.

Rhoddion Gwleidyddol ac Elusennol

Ni wnaeth y Swyddfa unrhyw roddion gwleidyddol nac elusennol yn 2020-21.

Gwrth-Dwyll a Chwythu'r Chwiban

Mae gan y Swyddfa drefniadau cadarn ar gyfer atal a chanfod twyll ac mae wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, gonestrwydd ac atebolrwydd. Mae ein trefniadau'n dilyn yr egwyddorion a amlinellir ym Mholisi Chwythu'r Chwiban Rheoli Arian Cyhoeddus a Model y Gwasanaeth Sifil

Ni chafwyd unrhyw achosion o dwyll na datgelu camarfer yn ystod y cyfnod adrodd.

Swyddfeydd a Gwaith Cyfalaf

Prif swyddfa'r Adran yw Tŷ Gwydyr, yn Whitehall, a oedd yn wreiddiol yn dŷ tref Sioraidd, ac yn adeilad rhestredig Gradd II*. Rydym yn cael ein cyngor a'n cymorth proffesiynol gan dîm ystadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a chan ein hasiantau rheoli ein hunain, i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu statudol a'n bod yn cydymffurfio ag iechyd a diogelwch, treftadaeth a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae gennym raglen dreigl o waith cynnal a chadw ar waith yn Nhŷ Gwydyr sy'n cydnabod ei statws a'i ofynion arbennig, ac rydym yn ymdrechu'n barhaus i ddarparu amgylchedd gwaith diogel i'n staff, ein Gweinidogion a'n hymwelwyr.

At hynny, mae'r Adran hefyd yn rhentu gofod swyddfa (sy'n cynnwys tua 45% o'r staff yng Nghymru, sydd wedi'u lleoli ym Mae Caerdydd ger Senedd Cymru a rhanddeiliaid allweddol. Fel y nodwyd ar y dudalen flaenorol, mae'r Swyddfa'n bwriadu symud i Hyb newydd Llywodraeth y DU yng nghanol Caerdydd pan fydd cyfyngiadau pandemig COVID-19 yn cael eu llacio.

Yng Ngwanwyn 2021 bydd y Swyddfa yn trosglwyddo perchnogaeth Tŷ Gwydyr i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA). Mae'r trosglwyddiad yn rhan o raglen ledled y llywodraeth a bydd y GPA yn darparu cyngor a chefnogaeth i'r swyddfa yn y dyfodol.

Mae ein dwy swyddfa yn bodloni gofynion y Ddeddf Anableddau.

Iechyd a Diogelwch

Mae'r Swyddfa'n cydnabod ei dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod cyfundrefn iechyd a diogelwch effeithiol yn cael ei datblygu.

Yn ystod 2020-21, ni reportiwyd unrhyw ddamweiniau i'r awdurdodau perthnasol.

Newid Sefydliadol yn sgil Cyfyngiadau Symud COVID-19

Roedd y cyfyngiadau symud a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 23 Mawrth 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddfa wneud newidiadau sydyn a disymwth i'w rôl a'r ffordd y mae'n ei threfnu ei hun. Roedd gofyn i'r holl staff weithio gartref o ganol mis Mawrth ymlaen. Roedd gan y Swyddfa bolisi gweithio gartref eisoes a oedd yn gweithio'n dda ond nid oedd erioed wedi cau ei swyddfeydd yn Llundain a Chaerdydd o'r blaen a mynnu bod yr holl staff yn gweithio gartref.

Darperir TG y Swyddfa gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mewn ymateb i'r amgylchedd gwaith newydd, darparodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder raglenni newydd i'w gwneud hi'n haws cysylltu a chyfathrebu wrth weithio gartref. Roedd y rhain yn cynnwys offer cyfarfod newydd fel Microsoft Teams a Google Hangout. Roedd y Swyddfa hefyd wedi cynorthwyo staff i brynu offer fel cadeiriau, monitorau a chlustffonau i wneud gweithio gartref yn fwy cyfforddus.

Roedd gweithio gartref hefyd yn golygu newid y ffordd mae pobl yn gweithio; cyfarfod a chyfathrebu o bell a gorfod rhyngweithio heb fod yn amgylchedd y swyddfa. Drwy gydol y broses, rydym wedi pwysleisio'r angen am gyswllt ac ymgysylltu rheolaidd o fewn a rhwng timau a'r angen am gymorth gan y naill a'r llall i helpu i fynd drwy'r cyfyngiadau symud a gweithio gartref.

Mae'r Swyddfa wedi dilyn cyfyngiadau Covid drwy gydol y pandemig, gan adlewyrchu'r amrywiadau mewn cyfyngiadau rhwng Cymru a Lloegr ac addasu canllawiau staff pan fo angen, wrth i'r ddwy set o gyfyngiadau newid dros amser. Mae ein staff yn parhau i weithio gartref oni bai fod angen penodol iddynt weithio yn y Swyddfa. Rhaid i'r rheini sydd angen gweithio yn y swyddfa roi gwybod am eu bwriad i wneud hynny ymlaen llaw a dilyn y canllawiau a'r arwyddion i gadw pellter cymdeithasol.

Datblygu Cynaliadwy

Paratowyd yr adroddiad datblygu cynaliadwy hwn yn unol â chanllawiau 2020-21 a osodwyd gan Drysorlys EM yn 'Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting' sydd i'w weld yma:

[Sustainability_Reporting_Guidance_2020-21.pdf](#) (publishing.service.gov.uk)

Mae'r ffocws ar gyrraedd targedau'r Llywodraeth, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a lleihau costau. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon, defnyddio llai o ddŵr ac anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.

Lleolir yr Adran yn Nhŷ Gwydyr yn Llundain. Fe'i lleolir hefyd mewn rhan o Caspian Point ym Mae Caerdydd ond ni roddir cyfrif am swyddi a rennir oherwydd cyfyngiadau allosod data cynaliadwyedd dibynadwy o daliadau gwasanaeth a ddarperir gan landlordiaid.

Llywodraethu, cyfrifoldebau a sicrwydd mewnol

Adolygir perfformiad amgylcheddol y Swyddfa o bryd i'w gilydd.

Ymrwymadau ar Effeithiau Amgylcheddol

Mae Ymrwymadau Gwyrdd y Llywodraeth, a lansiwyd ar 1 Ebrill 2011, yn ei gwneud yn ofynnol i Adrannau gymryd camau i leihau'r effaith ar yr amgylchedd yn sylweddol. Gellir gweld yr ymrwymadau hyn yma:

https://www.gov.uk/Government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/585344/greening-Government-commitments-overview-reporting-requirements-2016-2020.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n rheoli ymrwymiad lleihau carbon yr Adran. Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd drwy:

- cynyddu'r amrywiaeth o eitemau y gellir eu casglu i'w hailgylchu yn ein dau adeilad;
- newid peiriannau argraffu am fodolau sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon; a
- lle bo'n bosibl, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn hytrach na cheir pan fo'n rhaid teithio i gyfarfodydd.

Tunelli Allyriadau CO2					
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Teithio mewn Awyren	5.09	36.01	31.42	49.65	0.00
Teithio ar Drên	16.06	15.56	16.29	11.98	1.33
Milltiroedd mewn Ceir	1.21	1.92	2.34	1.92	2.06
Gwresogi Nwy	18.81	23.59	19.70	13.40	11.14
Trydan*	21.82	26.68	23.42	11.10	10.20
Gwastraff **	0.18	0.11	0.04	0.01	0.10
Cyfanswm Tunelli CO ²	63.17	103.87	93.21	88.06	24.83
Defnyddio Dŵr Metrau Ciwbig***	6271	385	212	427	505

* Mae'r ffactor trosi CO2 ar gyfer trydan wedi gostwng yn 2019 oherwydd gostyngiad mewn defnyddio glo i gynhyrchu trydan a chynnydd mewn cynhyrchu ynni drwy ddulliau adnewyddadwy.

** Mae'r cynnydd mewn gwastraff o ganlyniad i waith gwella yn cael ei wneud yn Swyddfa Llundain.

*** Mae'r defnydd o ddŵr yn 2020-1 yn seiliedig ar ddarlleniadau amcanol o'r mesurydd.

Oherwydd y pandemig COVID-19, roedd y teithio yn 2021-21 wedi dod i ben yn ymarferol, gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn allyriadau CO2.

Lle mae'r Swyddfa'n defnyddio gwasanaethau a gyflenwir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu dan gontract iddi, mae ein cyfraniad i ymrwymadau'r Llywodraeth ar effaith ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cael ei fodloni o fewn y fframweithiau ehangach hynny.

Adolygiad Ariannol

Yn 2020-21, gwariodd y Swyddfa £21.8 bn o fewn Amcangyfrifon o'r Cyflenwad Seneddol (Amcangyfrif Atodol), yn bennaf fel grant i Gronfa Gyfunol Cymru.

Perfformiad ariannol

Mae'r Senedd yn pleidleisio ar gyllid i adrannau ar ddau achlysur yn ystod y flwyddyn drwy Brif Amcangyfrif ar ddechrau'r flwyddyn ac Un Amcangyfrif Atodol ym mis Chwefror 2021.

Symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer Amcangyfrif yn ystod 2020-21

Ar ddechrau'r flwyddyn, pleidleisiwyd dros £18.6 biliwn i'r Adran yn ei Phrif Amcangyfrif. Erbyn yr Amcangyfrif Atodol Sengl terfynol, roedd hyn wedi cynyddu i £22.9 biliwn yn bennaf oherwydd cynnydd o £4.3 biliwn yn y cyllid ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru.

Eglurhad o'r amrywiadau rhwng yr Amcangyfrif a'r Alldro Adnoddau Net

Adnodd Swyddfa Cymru

Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol	Alldro £000	Amcangyfrif £000	(Gorwariant)/ Tanwariant £000	Canran o amcangyfrif %
A Swyddfa Cymru	4,682	5,319	637	12

Mae'r tanwariant o £637k yn erbyn yr Amcangyfrif o'r Cyflenwad i'w briodoli'n rhannol i'r gostyngiad yn y gwariant ar deithio a chynhaliadaeth oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Mae ffactorau eraill a oedd yn cyfrannu at hyn yn cynnwys oedi anochel wrth recriwtio staff newydd drwy gydol y flwyddyn, a Darpariaeth Adrannol Nas Dyrannwyd nas defnyddiwyd (arian wrth gefn a argymhellir gan Drysorlys EM).

Gwariant o fewn Terfynau Gwariant a Reolir yn Flynyddol	Alldro £000	Amcangyfrif £000	(Gorwariant)/ Tanwariant £000	Canran o amcangyfrif %
B Swyddfa Cymru	8	18	10	56

Swyddfa Cymru - Cyfalaf

Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol	Alldro £000	Amcangyfrif £000	(Gorwariant)/ Tanwariant £000	Canran o amcangyfrif %
A Swyddfa Cymru	73	80	7	9

Costau Anghyllidebol

Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol	Alldro £000	Amcangyfrif £000	(Gorwariant)/ Tanwariant £000	Canran o amcangyfrif %
C Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	19,630,589	20,791,153	1,160,564	5
D *Tâl dros Gyfraddau Treth Incwm Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru	2,169,668	2,169,668	0	0
Cyfanswm i Gronfa Gyfunol Cymru	21,800,257	22,960,821	1,160,564	5

Ar 6 Ebrill 2019, cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) yng Nghymru. Caiff derbyniadau o WRIT eu hychwanegu at Grant Bloc Cymru.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Gwerth yr asedau net ar 31 Mawrth 2021 yw £4.1m (2019-20 £4.5m). Dyma'r balansau sylweddol ar y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:-

- Eiddo, offer a chyfarpar £5.1m: - Mae hyn yn cynnwys y Swyddfa yn Llundain (Tŷ Gwydyr) yn bennaf, sef £5.0m;
- Mae'r Asedau Ariannol a Rhwymedigaethau o 70.1m yn fenthyciadau i Lywodraeth Cymru o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol. Mae symiau llog a thaliadau cyfalaf Cronfa'r Benthyciadau Gwladol yn cael eu mantoli gan symiau cyfatebol mewn asedau cyfredol, a symiau taladwy.

Cysoni gwariant adnoddau net rhwng Amcangyfrifon, cyllidebau a chyfrifon

	2020-21 £000	2019-20 £000
Alldro Adnoddau Net (Amcangyfrifon)	21 804,947	15,342,470
Addasiadau i dynnu eitemau anghyllidebol*	(21,800,257)	(15,337,546)
Cyfanswm Alldro Cyllideb Adnoddau	4,690	4,924
O'r rhain		
Terfyn Gwariant Adrannol:	4,682	4,681
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)**	8	243
Mae'r addasiadau'n cynnwys		
Eitemau Anghyllidebol*	21,800,257	15,337,546
Cost Gweithredu Net (Cyfrifon)	21,804,947	15,342,470

Nodiadau

- * Eitemau anghyllidebol yw'r Grant sy'n Daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru a Thâl dros Gyfraddau Treth Incwm Cymru i'r Gronfa Gyfunol. Gweler y Datganiad Cyflenwad Seneddol SOPS1
- ** Mae AME yn ymwneud â newidiadau yn y darpariaethau (gweler nodyn 11) ac ailbriso i lawr asedau eiddo, offer ac offer (gweler nodyn 2).



Glynne Jones CBE
Swyddog Cyfrifyddu
6th Gorffennaf 2021

2 Yr Adroddiad Atebolwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Gweinidogion, Cyfarwyddwyr ac Uwch-swyddogion

Gweinidogion/Cyfarwyddwyr/Uwch-swyddogion
Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS Ysgrifennydd Gwladol Cymru
David TC Davies AS Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru
Alison White – Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM)
Alun Evans – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) o'r 4ydd o Ionawr 2021 ymlaen
Peter Umbleja – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) hyd at y 30ain o Fehefin 2020
Glynne Jones , Cyfarwyddwr
Geth Williams - Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Undebol a Chorfforaethol
Sarah Jennings , Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat o'r 28ain o Fedi 2020 ymlaen
Charlotte Cattle , Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (hyd at yr 20fed o Fedi 2020)
Louise Parry a Kate Starkey – Dirprwy Gyfarwyddwr ar y Cyd, Polisi
Dafydd Jones , Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu o'r 11eg o Ionawr 2021
Victoria Shooter* – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, y Wasg a Chyfathrebu o'r 5ed o Hydref tan y 31ain o Ragfyr 2020
Ashok Ahir , Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu tan y 25ain o Hydref 2020
Sarah Stoney** – Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfreithiol Nodiadau

* Mae Victoria Shooter yn cael ei chyflogi gan Swyddfa'r Cabinet. Roedd yn aelod o Uwch Dîm Arwain y Swyddfa ond nid oedd yn aelod o'r Bwrdd Adrannol.

** Mae Sarah Stoney yn cael ei chyflogi gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth (GLD). Mae'n aelod o Uwch Dîm Arwain y Swyddfa ond nid yw'n aelod o'r Bwrdd Adrannol.

Roedd gan y Swyddfa ddau aelod anweithredol o'r bwrdd (NEBM) – Alison White (aelod arweiniol NEBM) ac Alun Evans (NEBM). Amlinellir manylion holl bwylgorau y Swyddfa a'u haelodaeth yn y "Datganiad Llywodraethu" (tudalennau 37-38).

Diogelwch a diogelwch gwybodaeth

Nid yw'r Swyddfa'n ymdrin â llawer iawn o ddata sensitif neu bersonol, ond serch hynny mae wedi ymrwymo i sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei dal yn cael ei thrin a'i diogelu'n gywir a'n bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol.

Mae asedau a risgiau gwybodaeth yn cael eu nodi ac mae rheolaethau ar waith i reoli eu defnydd, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym yn defnyddio pecyn hyfforddi a ddarperir drwy *Civil Service Learning* (CSL) i hyfforddi'r holl staff yn flynyddol mewn materion sy'n ymwneud â sicrhau gwybodaeth a thrin data.

Nid fu unrhyw ddigwyddiadau ynglŷn â diogelwch yn ystod 2020/21.

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r Swyddfa i baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail cronïadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Swyddfa a'i hincwm a'i gwariant, ei datganiad o sefyllfa ariannol a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- Glynw wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu priodol mewn ffordd gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y
- Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon;
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfarwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

Mae Trysorlys EM wedi penodi Glynne Jones Cyfarwyddwr y Swyddfa yn Swyddog Cyfrifyddu'r Swyddfa.

Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol amdanynt, cadw cofnodion cywir ac amddiffyn asedau'r Swyddfa, wedi'u nodi yn *Managing Public Money* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Paratowyd Cyfrifon y Swyddfa ar sail statudol yn unol â gofynion Trysorlys EM a dynodir eu bod yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Cyfrifon cyffredinol a roddir i adrannau gan Drysorlys EM dan adran 5 (2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Archwilir y datganiadau ariannol gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, a benodir mewn statud ac sy'n adrodd i'r Senedd ar yr archwiliad archwilio. Datgelir taliadau a threuliau'r archwilwyr yn Nodyn 2 ar y cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn adrodd ni wnaed unrhyw daliad i'r archwilwyr am waith nad oedd yn ymwneud ag archwilio (2019-20 £dim).

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu/Cyfarwyddwr, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Swyddfa yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i sicrhau ei fod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Swyddfa yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu/Cyfarwyddwr drwy hyn yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Datganiad Llywodraethu

Cyflwyniad

Fel Cyfarwyddwr y Swyddfa, fi hefyd yw'r Swyddog Cyfrifyddu. Yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn fy llythyr penodi, ac fel y nodir yn *Managing Public Money*, fi sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Swyddfa.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol i'r Senedd am stiwardiaeth yr adnoddau sydd o fewn rheolaeth y Swyddfa ac am eu rheoli, ac rwyf hefyd yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaethau mewnol.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r Swyddfa a sut y mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n ymdrin â'r broses a ddefnyddir gan Weinidogion ac uwch reolwyr i fonitro'r gwaith o gyflawni ei hamcanion ac yn ystyried a yw gweithgareddau'r Swyddfa wedi arwain at gyflawni canlyniadau priodol a chost-effeithiol.

Mae Datganiad Llywodraethu'r Swyddfa yn nodi'r strwythurau llywodraethu, y rheolaethau mewnol a'r gweithdrefnau rheoli risg sydd wedi bod ar waith yn y Swyddfa yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 a hyd at ddyddiad cyflwyno'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blyneddol yn y Senedd.

Cyfrifoldebau Gweinidogol

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi cyfarwyddyd gwleidyddol i'r Swyddfa ac mae'n atebol i'r Senedd. Fe'i cefnogir gan Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru, a Barwnes Breswyl (Chwip y Llywodraeth) yn Nhŷ'r Arglwyddi a chan dîm bychan o weision sifil dan arweiniad Cyfarwyddwr y Swyddfa.

Mae Gweinidogion yn arwain adrannau ac yn gyfrifol ac yn atebol i'r Senedd am weithredoedd a pholisïau eu hadrannau. Mae byrddau, o fewn y fframwaith strategol a bennir gan Weinidogion, yn cefnogi pennaeth yr Adran drwy gynghori Gweinidogion a rhoi cyngor am berfformiad yr Adran. Gweinidogion ac aelodau'r bwrdd sy'n gyfrifol am lywodraethu corfforaethol, sy'n diffinio hawliau a chyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid, yn pennu rheolau a gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn cynnwys y broses a ddefnyddir i osod a monitro amcanion yr Adran.

Strwythurau Llywodraethu Corfforaethol

Goruchwylir y gwaith o reoli'r Swyddfa gan y Bwrdd Adrannol a sefydlwyd ym mis Medi 2015 ac mae'n cyfarfod hyd at chwe gwaith mewn blwyddyn ariannol. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Cyfarwyddwr mewn cyfarfodydd lle nad yw Gweinidogion yn bresennol.

Mae'r Bwrdd Adrannol yn gyfrifol am ddarparu cyngor ar gyfeiriad strategol y Swyddfa (nodau ac amcanion) yn unol â pholisïau a bennir gan Weinidogion, craffu ar y cynllun busnes a sicrhau bod gan y swyddfa'r capasiti a'r gallu i gyflawni'r cynllun busnes, er mwyn diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei gyfrifoldebau i'r Senedd. Dangosir manylion aelodaeth y Bwrdd isod.

Yn 2020-21, adolygodd y Bwrdd gynnydd perfformiad, blaenoriaethau ac amcanion y Swyddfa, gan gytuno ar ddiweddariadau a monitro'r cynnydd hwnnw.

Cynhaliwyd adolygiad o weithrediadau'r Bwrdd Adrannol gan yr Aelod Bwrdd Anweithredol Arweiniol (NEBM) yn 2021. Manylwyd ar ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw mewn adroddiad ar wahân a rannwyd â holl Aelodau'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd Adrannol wedi parhau i wella ei effeithiolrwydd ers adolygiad y llynedd.

Cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr i drafod materion polisi, strategaeth a materion Adrannol.

Dangosir presenoldeb yn y Bwrdd Adrannol yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod:

Bwrdd Adrannol

Aelodau	Nifer y Cyfarfodydd Cymwys a Fynychwyd
Y Gwir Anrh. Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS , Cadeirydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru	3 o 3
David TC Davies AS Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru	3 o 3
Alison White – Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM)	6 o 6
Alun Evans – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) o'r 4ydd o Ionawr 2021 ymlaen	2 o 2
Peter Umbleja – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) hyd at y 30ain o Fehefin 2020	2 o 2
Glynne Jones CBE , Cyfarwyddwr	6 o 6
Geth Williams - Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Undebol a Chorfforaethol	6 o 6
Sarah Jennings , Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat o'r 28ain o Fedi 2020 ymlaen	3 o 3
Charlotte Cattle , Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (hyd at yr 20fed o Fedi 2020)	3 o 3
Louise Parry a Kate Starkey – Dirprwy Gyfarwyddwr ar y Cyd, Polisi	6 o 6
Dafydd Jones , Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu o'r 11eg o Ionawr 2021	2 o 2
Ashok Ahir , Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu tan y 25ain o Hydref 2020	3 o 3

Nodiadau

*Disgwylir i Weinidogion fynychu dau gyfarfod o'r Bwrdd bob blwyddyn.

Mae uwch dîm arweinyddiaeth y Swyddfa yn cefnogi'r Bwrdd trwy gynnal adolygiadau rheolaidd ar brosesau risg a llywodraethu.

Pwyllgorau sy'n Adrodd i'r Bwrdd Adrannol

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae'r ARAC yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM), ac mae'n cynnwys un NEBM arall ac aelod annibynnol arall. Mae'r aelod annibynnol wedi bod yn ei swydd ers pedair blynedd. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio'r Trysorlys ac yn cyfarfod bob chwarter. Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiad llawn o'i effeithiolrwydd ei hun ym mis Mawrth 2021, gan geisio barn ei aelodau. Daeth i'r casgliad er gwaethaf y mater a'r heriau gyda COVID-19, ni fu unrhyw hiatus neu niwed canlyniadol yn yr amgylchedd rheoli neu safonau llywodraethu, a pharhaodd y Pwyllgor i gyflawni yn erbyn ei gylch gwaith. Cadarnhawyd y farn hon gan waith archwiliad mewnol ac allanol.

Roedd rhai o'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cofrestrï risg, cynllun busnes a phrosesau llywodraethu'r Adran;
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon;
- Cyfrifon y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol; ac
- Adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol.

Roedd presenoldeb yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Aelodau	Nifer y Cyfarfodydd Cymwys a Fynychwyd
Alison White – Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM), Cadeirydd	4 o 4
Alun Evans – NEBM o'r 4ydd o Ionawr 2021 ymlaen	1 o 1
Peter Umbleja – NEBM tan y 30ain o Fehefin 2020	1 o 1
Sam Hartley ¹ – Aelod Annibynnol	4 o 4

Troednodiadau

Nodyn 1: Ar hyn o bryd, Sam Hartley yw Ysgrifennydd y Comisiwn Annibynnol ar Sŵn Hedfan Sifil.

Pwyllgorau Eraill

Mae gan y Swyddfa hefyd Bwyllgor Iechyd a Diogelwch gyda chylch gwaith i gynghori'r Bwrdd ar sicrhau bod y Swyddfa'n darparu amgylchedd gwaith iach a diogel i'w staff, ei Gweinidogion a'i hymwelwyr.

Cyfarfu'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, ddwywaith yn ystod 2020-21. Roedd prif ffocws y pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn gysylltiedig â Covid 19, yn bennaf adolygu a chymeradwyo canllawiau a baratowyd i'w defnyddio gan holl staff y Swyddfa.

Cofrestr Buddiannau

Mae prosesau Swyddfa Cymru ar gyfer cofrestru y tu allan i ddiddordebau a chyflogaeth yn berthnasol i bob aelod gweithredol ac anweithredol o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau ac i bob Uwch Weision Sifil sy'n gweithio yn yr Adran. Ar gyfer y staff hynny islaw'r Uwch Graddau Gwasanaeth Sifil, mae'r datganiad a rheolaeth buddiannau yn unol â pholisïau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a gofynion Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Swyddfa yn cynnal cofrestr o fuddiannau, sy'n cael ei hadolygu a'i diweddarau bob chwarter. Nodir y buddiannau a gofrestrwyd gan aelodau isod:

Enw	Swydd/Diddordeb
Alison White	NED a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio - Canolfan y Frenhines Elizabeth II (MHCLG) NED a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio - Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (DEFRA) NED a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio - Adran Actiwari'r Llywodraeth
Alun Evans	Unig Gyfarwyddwr – Atbeconsulting Ltd

Ar gyfer Gweinidogion, manylir ar fanylion eu buddion ariannol yng nghofrestr Tŷ'r Cyffredin. www.parliament.uk/mps-lords-and-offices/standards-and-financial-interests/parliamentary-commissioner-for-standards/registers-of-interests/register-of-members-financial-interests/

Cynghorwyr Arbennig

Yn unol â pholisi cyfredol y Datganiad o Fuddiannau ar gyfer cynghorwyr arbennig, mae pob cynghorydd arbennig wedi datgan unrhyw fuddiannau perthnasol neu wedi cadarnhau nad ydynt yn ystyried bod ganddynt unrhyw fuddiannau perthnasol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi ystyried y ffurflenni hyn ac mae'r buddiannau perthnasol canlynol wedi'u nodi'n gyhoeddus:

Olivia Williams - Mae gan Ms Williams rôl ddi-dâl fel Cyfarwyddwr Nameco 1064.

Penodiadau Busnes

Mae'r swyddfa yn dilyn y Rheolau Penodiadau Busnes (Bar) a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet i Weision Sifil. www.gov.uk/government/publications/governments-business-appointment-rules-for-civil-servants. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn monitro cydymffurfiaeth y swyddfeydd â'r rheolau.

Yn unol â bar, mae'r adran yn dryloew yn y cyngor a roddir i geisiadau unigol ar gyfer staff uwch, gan gynnwys cynghorwyr arbennig ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn: <https://www.gov.uk/search/transparency-and-freedom-of-information-releases?organisations%5B%5D=office-of-the-secretary-of-state-for-wales&parent=office-of-the-secretary-of-state-for-wales>

Adnabod a rheoli risg

Mae system reolaeth fewnol y Swyddfa wedi'i dylunio i adnabod risgiau busnes a'u lliniaru yn unol â'r paroddrwydd i dderbyn risg a ddiffinnir gan y Bwrdd. Mae'n seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i adnabod a blaenoriaethu risgiau i gyflawni amcanion Adrannol, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'u heffaith bosibl, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae cadernid y system hon yn parhau i gael ei ddangos gan y ffordd y mae'r Adran yn rheoli ei phrif risgiau strategol. Yn 2020-21, mae'r rhain wedi cynnwys y risgiau canlynol: -

- Methiant i weithio'n effeithiol gyda Llywodraeth Cymru ar yr agenda ar ôl COVID;
- Methiant i gefnogi agenda Twf y DU yng Nghymru a chydweithio â Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau twf economaidd yng Nghymru;
- Methu adlewyrchu buddiannau Cymru'n llawn yng ngwaith polisi a deddfwriaeth adrannau Llywodraeth y DU;
- Nid yw'r Swyddfa'n gallu darparu adnoddau digonol neu addas i gyflawni ymrwymïadau Llywodraeth y DU ynglŷn â Chymru.

Mae gan y Swyddfa drefniadau cadarn ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Er enghraifft, gyda golwg ar risg allweddol methu gweithio'n effeithiol gyda Llywodraeth Cymru ar yr agenda ar ôl COVID; Mae Llywodraeth y DU (gan gynnwys y Swyddfa) wedi cydweithio'n agos drwy'r Pandemig Covid, gyda Gweinidogion Cymru.

Mae'r ddwy Lywodraeth hefyd wedi parhau i gydweithio'n effeithiol ar amrywiaeth o gynlluniau, er enghraifft, bargeinion dinesig a thwf. Fodd bynnag, mae rhywfaint o densiynau gwleidyddol rhwng Llywodraeth bresennol Cymru a Llywodraeth y DU, sy'n codi i raddau helaeth oherwydd pŵerau UKIM newydd Gweinidogion y DU a rôl arweiniol Llywodraeth y DU o ran ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru ar gronfeydd twf ar ôl gadael yr UE.

Mae gan y Swyddfa rôl ganolog o ran cynnal perthynas waith gadarnhaol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth newydd Cymru, ar ôl etholiadau'r Senedd ar 6 Mai. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy ymgysylltu dwyochrog ac amlochrog parhaus ar faterion sydd o ddiddordeb i bawb ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn ffordd amserol ac ystyrlon.

Y gallu i ddelio â risg

Adnabuwyd risgiau a'u mynegi ar lefel strategol a gweithredol gan y Bwrdd Adrannol ac ar lefel weithredol gan y timau o fewn y pedair isadran. Roedd cofrestrau risg y canghennau yn ategu ac yn bwydo i mewn i'r Gofrestr Risg Strategol Adrannol gyffredinol a gafodd ei hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Roedd y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn adolygu eu dull o reoli risg yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod risgiau allweddol wedi cael eu nodi a bod mesurau priodol a chymesur ar waith i reoli lefel y risg i lefel dderbyniol. Cafodd y Bwrdd sicrwydd gan yr Uwch Dîm Arwain ynghylch effeithiolrwydd y rheolaethau i reoli risg weithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) o ran effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn arwain y gwaith o graffu a delio â risgiau allweddol, ac wedi cynnal adolygiad manwl o gofrestrau risg adrannol a sut roeddent yn cael eu rheoli.

Mae'r ymateb cychwynnol i'r pandemig COVID-19 yn dangos enghraifft o allu'r Swyddfa i ddelio â risgiau newydd:

Yr Ymateb Cychwynnol i COVID-19

Ym mis Mawrth 2020, ataliodd y Swyddfa yr holl waith nad oedd yn hanfodol er mwyn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau ar ymateb i'r pandemig COVID-19. Cymerodd y Swyddfa ran lawn yng ngwaith y Llywodraeth ar COVID-19 ac ataliodd yr holl waith busnes fel arfer oni bai nad oedd modd gwneud hynny er mwyn canolbwyntio ar y frwydr yn erbyn COVID-19.

Sefydlodd y Swyddfa dîm i ymateb i COVID-19 i weithio gydag adrannau eraill Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartneriaid ledled Cymru ar amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â'r ymateb i COVID-19 yng Nghymru.

Wrth i bwysau ton gyntaf y pandemig ysgafnhau ddiwedd mis Mai a mis Mehefin, dychwelodd staff at waith brys arferol. Cafodd y rîm ymateb i COVID-19 ei ddirwyn i ben ganol mis Mehefin, gyda gwaith ar ymateb i COVID-19 yn cael ei brif-ffrydio gyda blaenoriaethau craidd eraill y Swyddfa.

Fframwaith risg a rheolaeth

Roedd gan y Swyddfa Strategaeth a Fframwaith Polisi Rheoli Risg, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd. Mae'r Polisi'n amlinellu ei weithdrefnau'n glir, ac yn hyrwyddo diwylliant tryloyw ac atebol i gefnogi rheolaeth risg gyson, amserol ac effeithiol ar draws yr Adran.

Cefnogwyd effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg gan waith yr archwilwyr mewnol, yr uwch reolwyr a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r argymhellion a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Datganiadau Sicrwydd

Mae'n ofynnol i bob Dirprwy Gyfarwyddwr lenwi a llofnodi datganiad Tystysgrif Sicrwydd wedi'i gefnogi gan Restr Wirio Rheolaeth Fewnol gyflawn. Eleni, cafodd yr holl ddatganiadau eu hadolygu gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth a chan Gadeirydd ARAC fel rhan o'r adolygiad llywodraethu.

Roedd un mater a gododd o'r broses datganiad sicrwydd: -.

- Cynhaliwyd hyfforddiant gorfodol gan bob Dirprwy Gyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn, gydag un eithriad. Fodd bynnag, rhoddwyd sylw i hyn ychydig ar ôl diwedd y flwyddyn.

Archwiliad mewnol

Mae Trysorlys EM yn mynnu bod yn rhaid i'r archwiliad mewnol roi sicrwydd diwedd blwyddyn ar effeithiolrwydd llywodraethu, risg a rheolaeth adran. Sicrwydd yr Archwiliad Mewnol yw un o'r prif ffynonellau tystiolaeth sy'n sail i Ddatganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

Mae sicrwydd yr Archwiliad Mewnol yn seiliedig ar waith archwilio mewnol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â gwybodaeth am y fframwaith llywodraethu, risg a rheoli a gafwyd drwy fynychu cyfarfodydd a thrafodaethau gydag uwch reolwyr. Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n gweithio yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae ei gwaith yn seiliedig ar ei dadansoddiad o'r risgiau y mae'r Adran yn agored iddynt ac mae'r cynllun archwilio blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwnnw. Caiff y cynllun ei drafod a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac yna ei gytuno gyda'r Swyddog Cyfrifyddu.

Roedd cynllun archwilio mewnol 2020-21 yn cynnwys adolygiadau o'r canlynol: Cadernid, Llywodraethu a Chynllunio Ariannol a Busnes.

Bob blwyddyn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli'r Adran. Mae'r adolygiadau Archwilio Mewnol yn cyfrannu at y farn honno.

Adroddodd y Farn Archwilio Mewnol am 2021-21 lefel dda o reolaeth a chanfod unrhyw faterion rheoli sylweddol. Yn y cyd-destun hwn, roedd Pennaeth yr Archwiliad Mewnol yn gallu rhoi lefel gymedrol o sicrwydd ar ddigonolrwydd y fframwaith llywodraethu a rheolaeth yn y Swyddfa.

Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Rhoddodd y Swyddfa ystyriaeth lawn i arweiniad Trysorlys EM *Corporate Governance in Central Government Departments* (Ebrill 2017) wrth addasu a chryfhau ei phrosesau i adlewyrchu ei statws fel Adran annibynnol. Fodd bynnag, gwnaed hyn ar raddfa sy'n gymesur â'i maint, ei chyllideb a'i swyddogaeth (i ddarparu cymorth a chynghor polisi i Weinidogion yn hytrach na darparu rhaglenni neu wasanaethau'n uniongyrchol i'r

cyhoedd). Mae'r meysydd lle nad yw'r Adran ar hyn o bryd yn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau wedi'u cyfyngu i:

- Niferoedd NEBMs. Ar ôl ystyriaeth briodol gan y Cyfarwyddwr, y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Archwilydd Mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, penderfynodd yr Adran beidio â chynyddu nifer ei NEBMs. Teimlir bod yr aelodaeth bresennol yn gymesur â maint yr Adran (tua 52 o staff). Roedd gan y ddau NEBM sgiliau a phrofiad gwerthfawr dros ben sy'n arbennig o berthnasol i'r Swyddfa. Mae'r arweinydd NEBM yn gyfrifydd cymwysedig ac yn gadeirydd profiadol ac yn aelod annibynnol o bwyllgorau archwilio a risg, gan gynnwys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, 2il Ganolfan Gynadledda'r Frenhines Elizabeth ac Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r ail NEBM a benodwyd ym mis Ionawr 2021 yn gyn-weithiwr sifil gyda phrofiad o fod yn aelod gweithredol o Fwrdd pedair adran yn y Llywodraeth, gan weithio gyda Gweinidogion, a dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu Adran fechan o'r Llywodraeth. Roedd y cyn NEBM (y daeth ei dymor i ben ym mis Mehefin 2020) yn gyfrifydd siartredig wedi ymddeol o Dde Cymru gyda dros 30 mlynedd o brofiad mewn rolau arwain.
- I sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys o leiaf dri aelod, mae swyddog o'r Comisiwn Annibynnol ar Sŵn Hedfan Sifil yn gwasanaethu fel aelod annibynnol.
- Dylai aelodaeth y Bwrdd gynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid: - Oherwydd maint y Swyddfa, ac i sicrhau cydbwysedd yr aelodaeth rhwng Gweinidogion a Swyddogion, nid yw'r Pennaeth Cyllid yn aelod o'r Bwrdd ond mae'n mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd mewn swyddogaeth ymgynghorol.

Diogelwch a diogelwch gwybodaeth

Ymdrinnir â hyn yn Adroddiad y Cyfarwyddwr. Gweler tudalen 32.

Risg a Sicrwydd Gwybodaeth

Asedau Gwybodaeth

Nid yw'r Swyddfa'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd ac nid yw'n cynnal cronfeydd data mawr o ddata personol. Mae nifer cyfyngedig o ddaliadau data personol ar ffurf cofnodion personél a chyllid, a gohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad (ACau) ac Arglwyddi. Mae gwybodaeth arall a gedwir gan yr Adran yn cynnwys papurau polisi a chorfforaethol, a phapurau Pwyllgor y Cabinet.

Mae'r Swyddfa'n cydymffurfio â'r Rheoliad Ewropeaidd ar Ddiogelu Data (GDPR) a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018.

Gwybodaeth Reolaethol

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn derbyn gwybodaeth reolaethol o ansawdd am berfformiad y Swyddfa er mwyn eu galluogi i asesu, herio a gyrru gwelliannau yn ôl yr angen.

Risgiau a Rheoli Risgiau

O ystyried y daliadau cyfyngedig o wybodaeth sensitif, nid yw'r Swyddfa'n wynebu'r mesur o risg sy'n gofyn am strategaethau rheoli helaeth neu arbennig.

Canlyniadau yn ystod 2020-21

Ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod 2020/21.

Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Nid oedd unrhyw gyfarwyddiadau Gweinidogol yn ystod y flwyddyn.

Adroddiad cryno gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Ar sail ei waith dros y cyfnod adrodd hwn, gall y Pwyllgor ddarparu sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd trefniadau archwilio'r Adran ac ar y sicrwydd a roddir i'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu a rheoli risg. Mae hefyd yn gallu rhoi sicrwydd bod y prosesau sydd ar waith i gynhyrchu cyfrifon ariannol yr Adran yn gadarn.

Asesiad o'r system reoli fewnol

Ar sail yr adolygiad hwn, gallaf roi sicrwydd bod y system rheolaeth fewnol yn y Swyddfa yn ddigonol i gyflawni amcanion yr Adran. Rhoddir hyn ar y sail, lle adnabuwyd risg, bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r risg neu fod natur y risg wedi ei deall a'i derbyn yn llawn.



Glynne Jones CBE
Swyddog Cyfrifyddu
6th Gorffennaf 2021

Adroddiad Tâl a Staff

Adroddiad Tâl

Mae'r Adroddiad Taliadau a Staff yn crynhoi taliadau Gweinidogion, Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd, Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd a staff; mae hefyd yn cynnwys manylion costau gwirioneddol a threfniadau cytundebol.

Paratowyd yr adroddiad Taliadau a staff yn unol â gofynion y llawlyfr adroddiadau ariannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae rhai o'r tablau yn yr adroddiad hwn wedi bod yn destun archwiliad gan yr archwilydd allanol, y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Nodir yn glir pan fydd tablau wedi bod yn destun archwiliad.

Polisi Tâl

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu ar Gyflogau Uwch-swyddogion.

Mae'r Corff Adolygu hefyd yn cynghori'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd ar dâl a phensiynau Aelodau Seneddol (ASau) a'u lwfansau; ar lwfansau Arglwyddi; ac ar dâl, pensiynau a lwfansau Gweinidogion ac eraill y pennir eu tâl gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogol ac Eraill 1975.

Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu wedi ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sydd â'r gallu a'r cymwysterau priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff;
- polisiau'r Llywodraeth i wella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad ar Adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau Adrannol;
- yr arian sydd ar gael i Adrannau fel y nodir yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu'n ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion. Mae rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/organisations/review-body-on-senior-salaries>

Taliadau aelodau'r Bwrdd ac uwch weision sifil

Nid yw'r Swyddfa yn gyflogwr uniongyrchol. Mae'r holl staff naill ai'n cael eu cyflogi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu ar fenthg gan Adrannau eraill y Llywodraeth. Pennir cyflogau Uwch Weision Sifil yn unol â pholisi Gwobrwyo Uwch Wasanaeth Sifil Swyddfa'r Cabinet.

Contractau Gwasanaethau

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn mynnu bod penodiadau'r

Gwasanaeth Sifil yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod a hynny wedi'i seilio ar gystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae'r swyddogion a gwmpasir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau agored. Byddai terfynu swydd, ac eithrio am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn <https://civilservicecommission.independent.gov.uk/>

Cyflogau a hawliau pensiwn Gweinidogion

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Dangosir cyflogau, buddiannau trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn Gweinidogion yn y tablau canlynol. Mae ffigurau cyflog yn cynnwys yr holl lwfansau sy'n daladwy gan y Swyddfa, ond mae'r hyn sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yn cael ei gyfrifo'n net o lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia.

O ran Gweinidogion yn Nhŷ'r Cyffredin, dim ond cost y tâl ychwanegol i Weinidogion a ysgwyddir gan adrannau; mae cyflog eu gwasanaethau fel AS £81,932 (o 1 Ebrill 2020) a'r lwfansau amrywiol y mae ganddynt hawl iddynt yn cael eu talu'n ganolog. Fodd bynnag, mae'r trefniant ar gyfer Gweinidogion yn Nhŷ'r Arglwyddi yn wahanol gan nad ydynt yn cael cyflog ond yn hytrach tâl ychwanegol, na ellir ei fesur ar wahân i gyflogau Gweinidogion. Yr Adran sy'n talu cyfanswm y tâl hwn, yn ogystal â'r lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt, ac felly dangosir hyn yn llawn yn y ffigurau isod. uchod. Mewn perthynas â Gweinidogion yn Nhŷ'r Cyffredin, adrannau

Buddion o fath arall

Mae gwerth ariannol unrhyw fuddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarparwyd gan yr Adran ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Ni chafodd yr un Gweinidog yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru fuddion mewn nwyddau yn 2020-21 na 2019-20.

Tâl (cyflog, buddion mewn nwyddau a phensiynau)

Cyfanswm tâl unigol								
Gweinidogion	Cyflog (£)		Buddion o Fath Arall (i'r £100 agosaf)		Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) ¹		Cyfanswm (i'r £1000 agosaf)	
	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20
Y Gwir Yr Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol †	67,505	18,817	dim	dim	17,000	4,000	85,000	23,000
Y Gwir Yr Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol hyd at 6 Tachwedd 2019††	Amh.	57,379	Amh.	dim	Amh.	12,000	Amh.	69,000
David TC Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol†††	dim	dim	dim	dim	dim	dim	dim	dim
Kevin Foster AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol rhwng 4 Ebrill 2019 ac 16 Rhagfyr 2019††††	Amh.	dim	Amh.	dim	Amh.	dim	Amh.	dim
Nigel Adams AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 5 Tachwedd 2018 i 3 Ebrill 2019)††††	Amh.	dim	Amh.	dim	Amh.	dim	Amh.	dim
Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol hyd at y 26 ^{ain} o Gorffennaf 2019†††††	Amh.	dim	Amh.	dim	Amh.	dim	Amh.	dim

Nodiadau i'r tabl:

- Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.
- † Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU, ar 16 Rhagfyr 2019, penodwyd y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru Roedd ei gyflog cyfwerth â llawn amser yn 2019-20 yn y rôl hon yn £67,505. Nid oedd unrhyw un yn dal swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru rhwng 6 Tachwedd a'r Etholiad Cyffredinol.
- †† Ar 6 Tachwedd 2019, ymddiswyddodd y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns o'i swydd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae cyfanswm ei gyflog ar gyfer 2019-20 yn cynnwys taliad iawndal o £16,876. Roedd ei gyflog cyfwerth â llawn amser yn y rôl hon yn £67,505.
- ††† Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU, ar 16 Rhagfyr 2019, penodwyd David TC Davies yn Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru, yn lle Kevin Foster AS.
- †††† Ar 4 Ebrill 2019, penodwyd Kevin Foster AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, yn cymryd lle Nigel Adams AS a roddodd y gorau i'r rôl hon ar 3 Ebrill 2019.
- ††††† Ar 26 Gorffennaf 2019, ymddiswyddodd yr Arglwydd Bourne o'i rôl fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru.

Y Gronfa Gyfunol a Thŷ'r Arglwyddi fydd yn talu'r costau tâl ar gyfer y ddau Is-ysgrifennydd Seneddol.

Buddion Pensiwn					
	Pensiwn Cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth 2021	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed	CETV ar 31/3/21	CETV ar 31/3/20	Cynnydd/gostyngiad gwirioneddol mewn CETV £000
Gweinidogion	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Y Gwir Yr Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol	0-5	0-2.5	25	7	10
Y Gwir Yr Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol hyd at 6 Tachwedd 2019	Amh.	Amh.	Amh.	69	Amh.
David TC Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o 16 Rhagfyr 2019 ymlaen	dim	dim	dim	dim	dim
Kevin Foster AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol rhwng 4 Ebrill 2019 ac 16 Rhagfyr 2019	Amh.	Amh.	Amh.	dim	dim
Nigel Adams AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (hyd at 3 Ebrill 2019)	Amh.	Amh.	Amh.	dim	dim
Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol hyd at 26 Gorffennaf 2019	Amh.	Amh.	Amh.	dim	dim

Nodiadau i'r tabl:

*Lle ceir amh.: nid oes gwybodaeth flaenorol wedi'i chyhoeddi.

Pensiynau Gweinidogol

Darperir buddion pensiwn i Weinidogion gan Gronfa Bensiwn Gyfrannol y Senedd (PCPF). Mae'r cynllun yn cael ei wneud dan statud ac mae'r rheolau wedi'u nodi yng Nghynllun Pensiwn y Gweinidog ac ati 2015, sydd ar gael yn <http://qna.files.parliament.uk/ws-attachments/170890/original/PCPF%20MINISTERIAL%20SCHEME%20FINAL%20RULES.doc>

Caiff y Gweinidogion hynny sy'n Aelodau Seneddol hefyd gronni pensiwn AS o dan y PCPF (nid yw'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn). Cyflwynwyd cynllun pensiwn Aelodau Seneddol newydd o fis Mai 2015 ymlaen, er bod gan aelodau a oedd yn Aelodau Seneddol ac yn 55 oed neu hŷn ar 1 Ebrill 2013 warchodaeth drosiannol i aros yng nghynllun pensiwn cyflog terfynol yr AS blaenorol.

Mae buddion i Weinidogion yn daladwy o oedran Pensiwn y Wladwriaeth o dan gynllun 2015. Caiff pensiynau eu hailbriso'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau cyn ac ar ôl ymddeol. Y gyfradd cyfrannu o fis Mai 2015 ymlaen yw 11.1% a'r gyfradd cronni yw 1.775% o enillion pensiynadwy.

Mae'r ffigur a ddangosir ar gyfer gwerth pensiwn yn cynnwys cyfanswm y pensiwn sy'n daladwy i'r aelod o dan y cynlluniau pensiwn Gweinidogol cyn ac ar ôl 2015.

Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV)

Dyma werth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Buddion a gronnwyd gan yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau pensiwn y maent wedi eu cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi ei gronni o ganlyniad i gyfanswm ei wasanaeth Gweinidogol, nid dim ond ei benodiad cyfredol fel Gweinidog. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV

Dyma elfen y cynnydd mewn pensiwn cronedig a ariennir gan y Trysorlys. Nid yw'n cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant a chyfraniadau a dalwyd gan y Gweinidog. Mae'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Cyflog a hawliau pensiwn Aelodau'r Bwrdd

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros; tâl perfformiad neu fonws; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan y Swyddfa ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

Mae ffigurau cyflog yn cynnwys yr holl lwfansau sy'n daladwy gan yr Adran, ond mae'r hyn sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yn cael ei gyfrifo'n net o lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia. Mae bonysau'n seiliedig ar lefelau perfformiad ac yn cael eu talu fel rhan o'r broses werthuso. Mae'r bonysau a gofnodwyd yn 2020-21 yn ymwneud â pherfformiad yn 2019-20 ac mae'r bonysau cymharol a gofnodwyd ar gyfer 2019-20 yn ymwneud â pherfformiad yn 2018-19.

Cafodd Aelodau'r Bwrdd eu cefnogi gan y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sy'n mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Dangosir cyflogau, bonysau, buddiannau trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn Aelodau Bwrdd yn y tablau canlynol. -

Cyfanswm tâl unigol										
Swyddogion	Cyflog (£'000)		Taliadau bonws (£,000)		Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)		Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) ²		Cyfanswm (£1000)	
	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20
Glynne Jones CBE Cyfarwyddwr	95-100	90-95	5-10	dim	dim	dim	54,000	38,000	155-160	130-135
Geth Williams Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Corfforaethol a'r Undeb	75-80	70-75	5-10	dim	dim	dim	46,000	33,000	130-135	105-110
Sarah Jennings, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (o 28 Medi 2020 ymlaen) †	45-50	Amh.	dim	Amh.	dim	Amh.	19,000	Amh.	65-70	Amh.
Charlotte Cantle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (hyd at 20 Medi 2020) ††	35-40	40-45	dim	dim	dim	dim	15,000	17,000	50-55	55-60
Louise Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi, rhannu swydd gyda Kate Starkey) (from 10th June 2010)	45-50	30-35	dim	dim	dim	dim	39,000	75,000	80-85	105-110
Kate Starkey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi – rhannu swydd gyda Louise Parry (from 10th June 2019) †††	45-50	30-35	dim	dim	dim	dim	35,000	25,000	80-85	55-60
Dafydd Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu (o'r 11eg o Ionawr 2021) ††††	15-20	Amh.	dim	Amh.	dim	Amh.	7,000	Amh.	25-30	Amh.
Ashok Ahir, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu (hyd at 25 Hydref 2020) †††††	40-45	75-80	dim	dim	dim	dim	17,000	30,000	60-65	105-110

Nodiadau i'r tabl:

² Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

† Ymunodd Sarah Jennings â'r Adran fel Dirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Breifat ar 28 Medi 2020. Mae ei chyflog llawn amser yn 2020-21 yn amrywio o £90k i £95k.

†† Roedd Charlotte Cantle ar fenthg o Swyddfa'r Cabinet rhwng 23 Medi 2019 a 20 Medi 2020. Roedd ei chyflog cyfwerth â llawn amser yn 2020-21 rhwng £80k a £85k (2019-20 £80-85k).

††† Ymunodd Louise Parry a Kate â'r Adran fel Polisi Dirprwy Gyfarwyddwr ar 10 Mehefin 2019. Mae eu cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2020-21 yn yr ystod o £ 70k i £ 75k (2019-20 £ 70k i £ 75k).

†††† Ymunodd Dafydd Jones â'r Adran fel Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfathrebu 11 Ionawr 2021. Mae ei gyflog llawn amser yn 2020-21 yn amrywio o £80k i £85k.

††††† Gadawodd Ashok Ahir yr Adran ar 25 Hydref 2020. Mae ei gyflog llawn amser yn 2020-21 yn amrywio o £75k i £80k.

Cyfarwyddwyr Anweithredol

Taliadau Cydnabyddiaeth	Cyflog ac eithrio bonws (gan gynnwys lwfansau (£'000)		Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)		Cyfanswm (£'000)	
	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20
Alison White, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio	10-15	10-15	dim	dim	10-15	10-15
Alun Evans, Cyfarwyddwr Anweithredol (o 4 Ionawr 2021) *	0-5	Amh.	dim	Amh.	0-5	Amh.
Peter Umbleja, Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd at 30 Mehefin 2020) **	0-5	5-10	Amh.	dim	0-5	5-10

Nodiadau i'r tabl:

- * Penodwyd Alun Evans yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar 4 Ionawr 2021. Mae ei gyflog cyfwerth â llawn amser yn 2020-21 yn amrywio o £5k i £10k.
- ** Daeth penodiad Peter Umbleja fel Cyfarwyddwr Anweithredol i ben ar 30 Mehefin 2020. Mae ei gyflog cyfwerth â llawn amser yn 2020-21 yn amrywio o £5k i £10k.

Buddion Pensiwn

Uwch Reolwyr	Pensiwn cronodig a chyfundaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn 31 Mawrth 2021	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfundaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn 31 Mawrth 2021	CETV ar 31/3/21	CETV ar 31/3/20	Cynnydd/gostyngiad gwirioneddol mewn CETV
	£000	£000	£000	£000	£000
Glynne Jones CBE Cyfarwyddwr	40 - 45 ynghyd â chyfundaliad o 90 - 95	2.5 - 5 ynghyd â chyfundaliad o 0 - 2.5	837	770	37
Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Corfforaethol a'r Undeb	30 - 35 ynghyd â chyfundaliad o 70 - 75	0 - 2.5 ynghyd â chyfundaliad o 0 - 2.5	616	560*	34
Sarah Jennings, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (o 28 Medi 2020 ymlaen)	10-15	0-2.5	134	Amh.	9
Charlotte Cantle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (hyd at 20 Medi 2020 ymlaen)	5-10	0-2.5	62	53	5
Louise Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi	15-20 ynghyd â chyfundaliad o 30-35	0 - 2.5 ynghyd â chyfundaliad o 2.5-5	244	211	24
Kate Starkey, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi	20-25	0-2.5	274	246	19
Dafydd Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu (o 11 Ionawr 2021)	0-5	0-2.5	4	Amh.	2
Ashok Ahir, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu (hyd at 25 Hydref 2020)	0-5	0-2.5	51	37	9

Nodiadau i'r tabl:

- * Mae CETV 2010-20 ar gyfer Geth Williams wedi cael ei ail-gyfrifo gan y darparwyr Pensiwn oherwydd y newid yn y ffordd maent yn cyfrifo buddion pensiwn (o 17 Ionawr 2020 ymlaen, nid yw Cynllun Pensiwn y Llywodraeth yn berthnasol mwyach). Yn sgil ail-gyfrifo, mae'r CETV ar 31 Mawrth 2020 wedi newid o 559 i 560.

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – sef Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alffa**, sy'n darparu buddion yn seiliedig ar gyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, roedd pob gwas sifil newydd, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r bobl sydd eisoes mewn swydd, yn ymuno ag **alffa**. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn cyfranogi ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan gynllun PCSPS bedair adran: 3 sy'n rhoi buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol**, **premiwm** neu **clasurol a mwy**) gydag oed pensiwn arferol o 60; ac un sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau **clasurol**, **premiwm**, **clasurol a mwy**, **nuvos** ac **alffa** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau sy'n rhan o'r cynllun PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i **alffa** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu'r gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir y bydd gan aelodau cymwys, maes o law, sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, hawl i wahanol fuddion pensiwn mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i gynllun **alffa** yn cael eu 'bancio', gyda'r rheini sydd â buddion cynt yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu **alffa** – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac **alffa**, y ffigur a nodir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu gyfraniad wedi'i ddiffinio, pensiwn (prynu arian) gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau'r cyflogai'n gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau'r cynllun **clasurol**, **premiwm**, **clasurol a mwy**, **nuvos** ac **alffa**. Mae'r buddion yn y cynllun **clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd cyflogai'n ymddeol. Gyda'r cynllun **premiwm**, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **glasurol**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae **Clasurol a Mwy** yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun **Clasurol**, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun **Premiwm**. Gyda **nuvos**, mae'r aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy tra bo'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei

gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae'r buddion yn **alffa** yn cronni mewn ffordd debyg i **nuvos**, ond mae'r gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae cyfrif pensiwn y **bartneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniadau galwedigaethol diffiniedig sy'n rhan o Mastertrust Legal & General. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oed yr aelod). Nid oes raid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol yn sgil salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oedran hwnnw. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau **clasurol**, **premiwm** a **chlasurol a mwy**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a 65 oed neu Oed Pensiwn y Wladwriaeth, pa bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alffa – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alffa, mae'r ffigur a ddyfynnir yn gyfystyr â gwerth cyfunol y buddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael yn www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Buddion a gronnwyd gan yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi eu cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Lluosrifau Tâl

Mae'n ofynnol i gyrrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf yn eu sefydliad â thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Taliadau band y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf yn y Swyddfa ym mlwyddyn ariannol 2020-21 oedd £105-£110k (2019-20, £90-£95k) (Gweler y tabl cyfanswm tâl unigol). Roedd hyn 2.7 gwaith (2019-20, 2.5 gwaith) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £39,836 (2018-19, £36,798).

Yn 2020-21, ni dderbyniodd unrhyw gontractwr (2019-20, dim) dâl mwy na'r cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf. Roedd y taliadau'n amrywio o £8,300 i £106,000 (2019-20 £8,300 i £96,000).

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl seiliedig ar berfformiad heb ei gyfuno, a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

Iawndal am golli swydd

Ni adawodd yr un aelod o staff y Swyddfa o dan delerau Ymadael yn Wirfoddol yn 2020-21 na 2019-20.

Gweinidogion

Ni chafodd unrhyw daliadau diswyddo eu gwneud yn 2020-21. (Yn 2019-20, gwnaeth y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS adael o dan delerau diswyddo ar 6 Tachwedd 2019 a chafodd daliad diswyddo o £16,876).

Adroddiad Staff

Costau Staff (wedi'u harchwilio)

Dangosir gwariant y Swyddfa ar staff yn ystod 2020-21 yn y tabl isod: -

				31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020
	Staff a Gyflo- gir yn Barhol a Secondeion I mewn	Eraill	Ministers	Cyfanswm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cyfolgau wythnosol a misol	2,473	88	68	2,629	2,518
Costau nawdd cymdeithasol	222		8	230	195
Costau penswim eraill	548			548	464
Cyfanswm y Costau	3,243	88	76	3,407	3,177

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig nas cyllidir ar gyfer sawl cyflogwr, lle nad yw'r Swyddfa'n gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cyflawnwyd prisiad actiwaraid llawn ar 31 Mawrth 2016. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwyddaliadau Sifil <http://www.civilservice.gov.uk/pensions>

Ar gyfer 2020-21, roedd cyfraniadau pensiwn cyflogwr o £548k (2019-20: £464k) yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% (2019-20: 26.6% i 30.3%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwarï'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, nid pan fydd y costau'n codi mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad y cynllun yn y gorffennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau pensiwn cyflogwyr o £0 (2019-20: £0) i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 8% i 14.75% (2019-20: 8.0% i 14.75%) o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3.0% o gyflog pensiynadwy.

Ar ben hynny, roedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, sy'n cyfateb i 0.8% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS ar gyfer darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol ar ôl marwolaeth mewn gwaith ac ymdeol oherwydd afiechyd gweithwyr yn y cynllun PCSPS.

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i ddarparwyr pensiwn y bartneriaeth yn ystod y cyfnod adrodd oedd Dim. (2019-20: £dim).

Nid oedd unrhyw ymdeoliadau yn ystod 2020-21(2019-20: Dim) ar sail afiechyd.

Nifer y staff


Roedd cyfartaledd nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2019
Staff parhaol	47	41
Eraill	2	6
Gweinidogion	2	2
Cynghorwyr Arbennig*	2	1
Cyfanswm	53	50


* Cymerwyd niferoedd cynghorwyr arbennig ar 31 Mawrth 2021. Mae Cynghorwyr Arbennig yn weision sifil dros dro. Er mwyn gwella effeithlonrwydd, cafodd y gwaith o weinyddu costau staff ar gyfer pob Cynghorydd Arbennig ar draws y Llywodraeth ei symud i Swyddfa'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2019, gyda'r gyllideb gyfatebol yn cael ei throsglwyddo. Felly, adroddir ar gostau cynghorwyr arbennig nawr yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Swyddfa'r Cabinet. Mae Cynghorwyr Arbennig yn dal i gael eu cyflogi gan Adrannau'r Gweinidog sy'n eu penodi

Nid yw'r Swyddfa erioed wedi cyflogi staff yn uniongyrchol. Rydym yn parhau i dderbyn gwasanaethau cyflogaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n neilltuo staff i ni. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhwym wrth Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ac mae staff yn cael eu recriwtio ar ein rhan drwy gystadleuaeth deg ac agored. Yn y gorffennol rydym wedi bod yn llawer mwy dibynnol ar fenthyciadau gan adrannau eraill y Llywodraeth, ond erbyn hyn mae'r trefniant hwn yn berthnasol i lai na phum aelod o staff.

Roedd gan y Swyddfa gyflenwad staff o 52 erbyn diwedd cyfnod adrodd blwyddyn ariannol 2020-21. Fodd bynnag, fel y dengys y siart isod, ni chyflawnwyd y cyfanswm llawn mewn unrhyw fis penodol er bod cyfartaledd o 88% mewn lefelau staffio ar draws y flwyddyn. Y trosiant staff yn ystod y flwyddyn oedd tua 39%.



Dangosir dadansoddiad o'r staff yn ôl graddau'r gwasanaethau sifil yn y siart isod:



Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-21, roedd 45% o'r staff wedi'u lleoli yn ein swyddfa yng Nghaerdydd a 55% yn ein swyddfa yn Llundain.

Adrodd am gynlluniau Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill –pecynnau ymadael

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael y Gwasanaeth Sifil yn 2020-21 na 2019-20.

Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 (Offerynnau Statudol 328)

Nid yw Rheoliadau Amser Cyfleuster Undebau Llafur yn berthnasol i'r Swyddfa gan nad ydym yn gyflogwr ac mae gennym lai na 49 o staff cyfwerth ag amser llawn. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel y cyflogwr, yn darparu cynrychiolaeth undeb llafur i staff.

Uwch Wasanaeth Sifil


31 Mawrth 2021, roedd saith o bobl mewn 6 swydd uwch was sifil barhaol yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys un cyfreithiwr sydd ar secondiad o Adran Gyfreithiol y Llywodraeth.

Staff mewn swyddi ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil	Mawrth 2021	Mawrth 2020
Canran menywod	57%	57%
Canran menywod ym Mand Cyflog 2 ac uwch	0%	0%
Canran Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a ddatgelwyd	0%	17%
Canran y staff Anabl a ddatgelwyd	0%	0%


Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Caiff gwybodaeth am amrywiaeth o nodweddion personol ei monitro drwy system Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, lle caiff staff eu hannog i wneud datganiadau personol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r siartiau isod yn dangos y data sydd ar gael ar 31 Mawrth 2021 o ran rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, oedran a chyfeiriadedd rhywiol.


Cyfraddau Monitro Cydraddoldeb a 31 Mawrth 2021




Proffil Rhyw ar 31 Mawrth 2021




Proffil Ethnigrwydd ar 31 Mawrth 2021



Proffil Anabledd ar 31 Mawrth 2021



Cyfeiriadedd Rhywiol Personol ar 31 Mawrth 2021




O ran adrodd ar Grefydd a Chred, gan fod rhai o'r categorïau'n ymwneud â llai na phum aelod o staff, ni chyhoeddir y wybodaeth.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel y cyflogwr yn defnyddio ceisiadau dienw fel rhan o'i phroses recriwtio i leihau rhagfarn ddjarwybod yn ystod y cam llunio rhestr fer. Mae'r Swyddfa'n parhau i wneud aelodaeth y panel cyfweld yn fwy amrywiol ac ar y lleiaf yn ymdrechu i gael cynrychiolaeth o'r rhywiau ar bob panel.

Mae'r tabl isod yn dangos proffil oedran y staff sy'n gweithio yn y swyddfa.

Proffil Oedron ar 31 Mawrth 2021



Cyflogi pobl anabl

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cymryd rhan yn y Cynllun Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd ac yn cynnig y Cynllun Gwarant Cyfweliad (GIS) i ymgeiswyr sy'n ystyried eu hunain yn anabl. Gan fod y Swyddfa'n cydymffurfio â chynlluniau recriwtio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, rydym hefyd yn mabwysiadu'r safonau arferion gorau hyn.

Materion eraill sy'n ymwneud â Lles ym maes lechyd

Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gollwyd o ganlyniad i salwch ym mlwyddyn galendr 2020 oedd 6.49. Mae hyn yn ganlyniad i absenoldeb tymor hir oherwydd cyflyrau meddygol difrifol. Ategir hyn gan y data nad yw 83% gydag absenoldeb wedi'i gofnodi yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r Swyddfa'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau Lles sy'n cael eu trefnu ar y cyd â Grŵp Llywodraethu ehangach y DU a bellach yn cael awgrymiadau llesiant bob wythnos. Yn ddiweddar, mae'r adran wedi cynyddu ei Swyddogion Cymorth Cyntaf lechyd Meddwl i bedwar.

Gwariant ar staff ymgynghorol a staff dros dro

Roedd y gwariant ar ymgynghori yn 2020-21 yn ddim. (2019-20 £6,000).

Cyfanswm y gwariant ar staff dros dro yn 2020-21 oedd £87,665 (2019-20 £206,865). Defnyddiodd y Swyddfa staff dros dro i lenwi swyddi gwag.

Arolwg ymgysylltu â staff

Cymerodd y swyddfa ran yn yr arolwg blynyddol ar draws y gwasanaeth sifil. Ein hymgysylltiad staff cyffredinol oedd 61%.

Apwyntiadau oddi ar y Gyflogres

Yn 2020-21 nid oedd gan y Swyddfa unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y diwrnod ac am gyfnod o chwe mis neu fwy.

Yr Iaith Gymraeg

Mae gan y Swyddfa ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun ac mae'n adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar berfformiad yn erbyn y targedau a bennir yn y Cynllun. Rydym yn sicrhau bod cyfran resymol o staff yn cael eu recriwtio sydd â gallu dwyieithog. Mae'r staff hyn yn gallu ymateb i ymholiadau ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg, pan fo angen.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd, ac yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff yn unol â hynny. Cynhelir archwiliad o sgiliau staff yr Adran bob blwyddyn ac mae canlyniadau'r archwiliad hwn yn sylfaen ar gyfer cynllunio olyniaeth a'n gweithlu. Fel ar 31 Mawrth 2021:

- Asesodd 11% o'r staff eu hunain yn rhugl wrth wrando, darllen a siarad Cymraeg, gyda 9% o'r staff yn ystyried eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg ysgrifenedig.
- Asesodd 5% o'r staff fod ganddynt sgiliau uwch wrth wrando, darllen a siarad Cymraeg, gyda 7% o'r staff yn ystyried bod ganddynt sgiliau uwch mewn Cymraeg ysgrifenedig.

- Asesodd 11% o'r staff eu bod yn meddu ar sgiliau canolradd wrth ddarllen Cymraeg, roedd 7% o'r staff yn ystyried bod ganddynt sgiliau canolradd wrth siarad Cymraeg ac roedd 5% o'r staff yn asesu bod ganddynt sgiliau canolraddol wrth wrando ar y Gymraeg.
- Asesodd 18% o'r staff fod ganddynt sgiliau sylfaenol wrth ddarllen Cymraeg, mae 16% o'r staff yn ystyried bod ganddynt lefel sylfaenol o sgiliau gwranddo a siarad Cymraeg ac mae gan 9% sgiliau sylfaenol wrth ysgrifennu Cymraeg.
- Asesodd 55% o'r staff nad oedd ganddynt allu yn y Gymraeg.

Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.

Datganiad Cyflenwad Seneddol

Yn ogystal â'r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi Datganiad Cyflenwad Seneddol a nodiadau ategol.

Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig wedi'u harchwilio, fel y nodir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin.

Mae'r SoPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario o'i gymharu ag Amcangyfrif y Cyflenwad. Cyflenwad yw'r sefyllfa ariannol (ar gyfer dibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (sydd wedi'i dynnu o'r Gronfa Gyfunol yn bennaf), y mae'r Senedd wedi rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn nodi cyflenwad, ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Petai endid yn mynd dros y terfynau a osodwyd yn Amcangyfrif y Cyflenwad, sef y terfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn amodol.

Mae fformat y SoPS yn adlewyrchu Amcangyfrifon y Cyflenwad a gyhoeddwyd ar gov.uk, er mwyn galluogi tynnu cymhariaeth rhwng yr hyn mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SoPS yn cynnwys tabl cryno, sy'n nodi perfformiad yn erbyn y terfynau rheoli mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, yr arian a wariwyd (mae cyllidebau'n cael eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd alldro yn cyd-fynd yn union â'r arian a wariwyd) a gweinyddu.

Mae'r nodiadau ategol yn nodi'r canlynol: Alldro fesul llinell Amcangyfrif, sy'n darparu dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net yn y SOCNE, i gyd-fynd â'r SoPS i'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni'r alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a, dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Crynodeb o'r Alldro Adnoddau a Chyfalaf 2020-21

Math o Wariant	No- dyn SoPS	2020-21		2020-21		2020-21		2020-21		2019-20	
		Alldro		Amcangyfrif		Amcangyfrif		Alldro o'i gymharu ag		Alldro'r Flwyddyn Flaenorol	
		Heb ei bleidleisio	Cyfanswm	Heb ei bleidleisio	Cyfanswm	Pleidleisi- wyd	Cyfanswm	Pleidleisi- wyd	Cyfanswm	Cyfanswm	Cyfanswm
		£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	
Terfyn Gwariant Adrannol											
Adnoddau	1.1	4,682	4,682	5,319	5,319	636	636	636	636	4,681	
Cyfalaf	1.2	73	73	80	80	7	7	7	7	45	
Cyfanswm		4,755	4,755	5,399	5,399	644	644	644	644	4,726	
Gwariant a Reolir yn Flynyddol											
Adnoddau	1.1	8	8	18	18	10	10	10	10	243	
Cyfalaf	1.2	-	-	-	-	-	-	-	-	-	
Cyfanswm		8	8	18	18	10	10	10	10	243	
Cyfanswm y Gyllideb											
Adnoddau		4,690	4,718	5,337	5,337	647	647	647	647	4,924	
Cyfalaf		73	73	80	80	7	7	7	7	45	
Cyfanswm Gwariant y Gyllideb		4,763	4,763	5,417	5,417	654	654	654	654	4,969	
Gwariant Anghyllidebol											
		21,800,257	21,800,257	22,960,821	22,960,821	1,160,564	1,160,564	1,160,564	1,160,564	15,337,546	
Cyfanswm y Gyllideb ac Anghyllidebol		21,805,020	21,805,020	22,966,238	22,966,238	1,161,218	1,161,218	1,161,218	1,161,218	15,342,515	

Y ffigurau yn y darnau sydd wedi'u hamlinellu gyda llinell drwchus yw'r terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd. Edrychwch ar lawlyfr Amcangyfrifon y Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk, i gael rhagor o fanylion am y terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd.

Gofyniad arian parod net 2020-21 holl ffigurau wedi'u cyflwyno mewn £000au

Eitem	Nodyn SoPS	Alldro	Amcangyfrif	Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif: arbediad/ (dros ben)	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2019-20
Gofyniad arian parod net	3	21,804,789	22,966,018	1,161,229	15,342,040

Costau gweinyddu 2020-21

Math o Wariant	Nodyn SoPS	Alldro	Amcangyfrif	Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif: arbediad/ (dros ben)	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2019-20
Administration costs	1.1	4,406	4,868	462	4,486

Er nad yw'n derfyn y pleidleisir arno ar wahân, bydd unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â'r gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidleisio swm dros ben.

Nodiadau i'r Datganiad Cyflenwad Seneddol 2020-21(£000's)

SOPS1. Manylion alldro, fesul Llinell Amcangyfrif

SOPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro fesul llinell Amcangyfrif

	Gweinyddu			Adnoddau Alldro			Amcangyfrif			Y Flwyddyn Fleonor Alldro Cyfanswm 2019-20	
	Gros	Incwm	Net	Rhaglen	Rhaglen	Net	Cyfanswm	Trosglwyddiad	Cyfanswm yn cynnwys trosglwyddiadau		Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif arbedion (dros ben)
Math o Wariant (Adnoddau)											
Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adranol (DEL)											
Gwariant a Bleidleisiwyd											
A - Swyddfa Cymru	4,523	(117)	4,406	-	276	276	4,682	-	5,319	637	4,681
Cyfanswm y DEL a bleidleisiwyd	4,523	(117)	4,406	-	276	276	4,682	-	5,319	637	4,681
Cyfanswm y gwariant yn y DEL	4,523	(117)	4,406	-	276	276	4,682	-	5,319	637	4,681
Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)											
B - Darpariaethau ac Amhariadau	-	-	-	-	8	8	8	-	18	10	243
Cyfanswm y AME a bleidleisiwyd	-	-	-	-	8	8	8	-	18	10	243
Cyfanswm y gwariant yn y AME	-	-	-	-	8	8	8	-	18	10	243
Gwariant Anghyllidebol											
C - Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	-	-	-	19,630,589	-	19,630,589	19,630,589	-	20,791,153	1,160,564	13,278,456
D - Talu Cyfraddau Treth Incwm Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru	-	-	-	2,169,668	-	2,169,668	2,169,668	-	2,169,668	-	2,059,000
Cyfanswm y Gwariant Anghyllidebol	-	-	-	21,800,257	-	21,800,257	21,800,257	-	22,960,821	1,160,564	15,337,546
Cyfanswm Adnoddau	4,523	(117)	4,406	-	21,800,541	21,800,541	21,804,947	-	22,966,158	1,161,211	15,342,470

SOPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf fesul llinell Amcangyfrif (£,000's)

Math o Wariant (Cyfalaf)	Alldro		Amcangyfrif			Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif o'r arbedion (dros ben)		Y Flwyddyn Flaenorol Y Flwyddyn Flaenorol
	Gros	Incwm	Net	Cyfanswm	Trosglwyd- diadau	Cyfan- swm yn cynnwys trosglwyd- diadau	Y Flwyddyn Flaenorol	
Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)								
Gwariant a Bleidleisiwyd								
A - Cyfalaf	78	(5)	73	80	-	80	7	45
Cyfanswm y DEL a Bleidleisiwyd	78	(5)	73	80	-	80	7	45
Cyfanswm y gwariant yn y DEL	78	(5)	73	80	-	80	7	45
Cyfanswm y gwariant yn y DEL	78	(5)	73	80	-	80	7	45

Mae'r colofnau cyfanswm Amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadau yw aiddyrannu darpariaeth yn yr Amcangyfrifon heb fod angen awdurdod seneddol (am nad yw'r Senedd yn pleidleisio i lefel manyldeb o'r fath ac yn dirprwyo i Drysorlys EM), mae rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn Llawlyfr Amcangyfrifon y Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk

Mae'r golofn alldro o'i gymharu ag amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau. Mae'r cyfanswm amcangyfrif cyn trosglwyddiadau wedi cael ei gynnwys fel bod defnyddwyr yn gallu cysylltu'r amcangyfrif yn ôl â'r Amcangyfrifon a gyflwynwyd gerbron y Senedd.

SOPS2. Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net

		Y Flwyddyn Flaenorol Cyfanswm Alldro 2019-20
	Cyfanswm alldro £000	£000
Cyfanswm alldro adnoddau	SOPS 1.1	
Cyllideb	4,690	4,924
Anghyllidebol	21,800,257	15,337,546
Cyfanswm	21,804,947	15,342,470
Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	SOCNE	15,342,470
	21,804,947	15,342,470

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r Datganiad Cyflenwad Seneddol (SoPS), mae alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), ond yn wahanol iddynt. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau â'r gwariant gweithredu net, ac yn cysylltu'r SoPS â'r datganiadau ariannol.

Nid oes eitemau cysoni ac mae'r cyfanswm alldro adnoddau yn y SoPS yr un fath â'r gwariant gweithredu net yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr (SOCNE).

SoPS3 Cysoni'r Alldro Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net

	SoPS Cyfeirnod	Cyfanswm alldro	Amcangyfrif	Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif arbediad/ (dros ben)
		£000	£000	£000
Cyfanswm alldro Adnoddau	SOPS1.1	21,804,974	22,966,158	1,161,211
Cyfanswm alldro Cyfalaf	SOPS1.2	73	80	7
Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn arian parod:				
Dibrisiant		(163)	(175)	(12)
Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol		(3)	(3)	-
Eitemau anariannol eraill		(42)	(42)	-
Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:				
Gwaredu Cyfalaf		5	-	(5)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy		(62)	-	62
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy		34	-	34
Defnyddio darpariaethau				
Cyfanswm		(231)	(220)	11
Gofyniad arian parod net		21,804,789	22,966,018	1,161,229

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, mae alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, ac nid ar sail arian parod.

Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf â'r gofyniad arian parod net.

SOPS4. Swm o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

SOPS4. Swm o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ychwanegol at incwm a gedwir gan yr adran mae'r incwm a ganlyn yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.(derbyniadau arian parod wedi'u dangos mewn print italig).

Eitem	Cyfeirnod		Cyfeirnod Blwyddyn 2019-20	
	Croniadau	Sail arian parod	Croniadau	Sail arian parod
	£000	£000	£000	£000
Incwm y tu allan i ffiniau'r Amcangyfrif				
Blaendaliadau Etholiad y Cynulliad a Gollwyd	-	-	-	-
Cyfanswm yr Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol	-	-	-	-

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 4.1 yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan Swyddfa Cymru pan oedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach na phrif bartner. Y symiau a gasglwyd fel asiant i'r Gronfa Gyfunol (sydd fel arall wedi'u heithrio o'r datganiadau ariannol hyn) yw:

Dangosir yr incwm a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y tabl isod

	Alldro Cyfanswm	Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2019-120
	£000	£000
Benthyciadau i Fyfyrrwyr	28,244	47,626
Benthyciad Pont Cleddau	200	-
Tai Cymru	7	11
Llog Banc	59	41
Arall	-	8
Swm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol	28,510	47,686
Balans a ddelid ar ddechrau'r flwyddyn	-	-
Taliadau i'r Gronfa Gyfunol	28,510	47,686
Balansau a ddelid ar ymddiriedaeth ddiwedd y flwyddyn	-	-

Cyfanswm yr incwm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol ar 31ain Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021 oedd:

	Alldro Cyfanswm	Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2019-20
	£000	£000
Incwm o 2019-20		47,686
Incwm o 2020-21	28,510	
	28,510	47,686

3. Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol (yn amodol ar archwiliad)

3.1 Colledion a Thaliadau Arbennig

Nid yw Swyddfa Cymru wedi colli neu wedi gwneud taliadau arbennig yn 2020-21 (2019-20 Dim).

3.2 Rhwymedigaethau Digwyddiadol Pell

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol pell.



**Glynne Jones CBE
Swyddog Cyfrifyddu
6th Gorffennaf 2021**

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLYDD A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol Swyddfa Cymru'n cynnwys: Datganiad am y Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad am y Sefyllfa Ariannol; Datganiad am y Llifoedd Arian; y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol yn unol â'r dehongliad ohonynt yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EM.

Rwyf hefyd wedi archwilio Datganiad y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Adran a sefyllfa ar 31 Mawrth 2021 ac o gostau gweithredu net yr Adran am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan hynny.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys:

- mae Datganiad y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 ac mae'n dangos nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (ISA) (DU), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis defnyddio'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwyf yn annibynnol ar Swyddfa Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Swyddfa Cymru o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Swyddfa Cymru i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer Swyddfa Cymru yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau'r Llywodraeth gan Drysorlys EM, sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol, ond nid yw'n cynnwys rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi cael eu harchwilio, y datganiadau ariannol a fy nhystysgrif archwilydd ar hynny. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu

fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu sydd yn ymddangos fel camddatganiad o bwys fel arall. Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a gyflawnwyd wrth gynnal yr archwiliad:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; a
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiadau ar Perfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Ac ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Swyddfa Cymru a'i [h]amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn cysylltiad â'r materion canlynol, y byddaf yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad yw rhai o'r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EM, wedi cael eu datgelu; neu
- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfriad â chanllawiau Trysorlys EM.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu Swyddfa Cymru i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni fo'r Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol o ran a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Mae fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Swyddfa Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Swyddfa Cymru sy'n ymwneud â'r canlynol:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; ac

- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau Swyddfa Cymru sy'n ymwneud â Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Cyflenwi a Neilltuo (Prif Amcangyfrifon) 2020, a Rheoli Arian Cyhoeddus,
- trafod ymysg y tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod reffeniw, postio cyfnodolion anarferol ac amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol; ac
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Swyddfa Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Swyddfa Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith o bwys ar weithrediadau Swyddfa Cymru. Roedd y prif gyfreithiau a rheoliadau a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Cyflenwi a Neilltuo (Prif Amcangyfrifon) 2020, Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyfraith Cyflogaeth a Deddfwriaeth Treth.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r hyn a ddatgelwyd yn y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaid â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosib;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi pa mor briodol yw eitemau dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol.

Roeddwn hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol a thimau archwilio cydrannau o bwys, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod Datganiad y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n gywir yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ac nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf),

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Anghyllidebol (Adnoddau) a Gofynion Arian Net. Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd Brydeinig a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

Adrodd

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoel. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Swyddfa Cymru yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

7th Gorffennaf 2021

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
lundain
SW1W 9SP

3 Datganiadau Ariannol

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhrychir ac a ddefnyddir ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill nad oes modd eto'u cydnabod yn incwm neu wariant.

		2020-21	2019-20
		Adran Graidd	Adran Graidd
	Nodyn	£000	£000
Incwm	3	(117)	(112)
Cyfanswm incwm gweithredu		(117)	(112)
Costau Staff	2	3,407	3,177
Adeiladau, cynnal a chadw a chyfleustodau	2	507	519
Taliadau Dibrisiant ac Amhariad	2	163	157
Gwariant gweithredu arall	2	721	1,145
Talu i Gronfa Gyfunol Cymru	2	21,800,257	15,337,546
Treuliau Arglwydd Raglawiaid	2	9	38
Llog NLF yn daladwy		2,474	2,394
Llog NLF yn dderbyniadwy		(2,474)	(2,394)
Cyfanswm gwariant gweithredu		21,805,064	15,342,582
Gwariant gweithredu net		21,804,947	15,342,470
Gwariant Net Cynhwysfawr Arall			
Eitemau na chânt eu hailgategoreiddio i'r costau gweithredu net:			
(Enillion) / colledion net ar ailbriso Eiddo, Offer a Chyfarpar		212	81
Eiddo, Offer a Chyfarpar		-	-
Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		21,805,159	15,342,551

Mae'r holl incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau sy'n parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 83 i 100 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol Ar 31 Mawrth 2021

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol Swyddfa Cymru. Mae'n cynnwys tair prif gydran: asedau a berchnogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, gweddill gwerth yr endid.

		31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2021
	Nodyn	£000	£000
Asedau anghyfredol:			
Eiddo, offer a chyfarpar	4	5,148	5,455
Asedau ariannol	8	70,085	72,502
		<hr/>	<hr/>
<i>Cyfanswm asedau anghyfredol</i>		75,233	77,957
Asedau cyfredol:			
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	9	2,868	2,883
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	6	80	37
		<hr/>	<hr/>
<i>Cyfanswm asedau cyfredol</i>		2,948	2,920
Cyfanswm Asedau		78,181	80,877
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnach a symiau taladwy eraill	10	(3,665)	(3,609)
Darpariaethau	11	(299)	-
		<hr/>	<hr/>
<i>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</i>		(3,964)	(3,609)
Asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol net		74,217	77,268
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Darpariaethau	11	-	(296)
Rhwymedigaethau ariannol	10	(70,085)	(72,502)
		<hr/>	<hr/>
<i>Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol</i>		(70,085)	(72,798)
		<hr/>	<hr/>
Asedau llai'r rhwymedigaethau		4,132	4,470
Ecwiti trethdalwyr:			
Y gronfa gyffredinol		527	612
Y gronfa ailbrisio wrth gefn		3,605	3,858
		<hr/>	<hr/>
Cyfanswm ecwiti		4,132	4,470

Mae'r nodiadau ar dudalennau 83 i 100 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



Glynne Jones
Swyddog Cyfrifyddu
6th Gorffennaf 2021

Datganiad Llifau Arian

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Mae'r Datganiad Llifau Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn yr adran yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r datganiad yn dangos sut y bydd yr adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod drwy gategoreiddio llifau arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu.

Mae swm y llifau arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth ac i ba raddau y mae'r gweithrediadau hyn yn cael eu hariannu drwy gyfrwng incwm derbynwyr gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli i ba raddau y mae'r llifau arian i mewn ac allan wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus yr adran yn y dyfodol.

		2020-21	2019-20
	Nodyn	£000	£000
Llif arian o weithgareddau gweithredol			
Gwariant gweithredu net	SOCNE	(21,804,947)	(15,342,470)
Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod	2	208	431
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	9	15	(1,227)
<i>Llai: Symudiadau yn y symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr ¹</i>	9	47	1,251
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill	10	(2,361)	(1,112)
<i>Llai: Symudiadau yn y symiau taladwy sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr ¹</i>	10	2,327	1,132
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		(21,804,711)	(15,341,995)
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	5	(78)	(45)
Ad-daliadau Benthyciad gan Gyrff Eraill (Cyfalaf)	9	2,362	1,228
Ad-daliadau Benthyciad gan Gyrff Eraill (Llog)	SOCNE	2,474	2,394
Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		4,758	3,577
Llif arian o weithgareddau ariannu			
O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – Blwyddyn Gyfredol ²		21,804,832	15,342,016
O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – Blwyddyn flaenorol		4,656,557	-
Blaendaliadau o'r Gronfa Wrth Gefn		(4,656,557)	-
Ad-dalu benthyciadau gan y NLF (cyfalaf) ³	10	(2,362)	(1,228)
Ad-dalu benthyciadau gan y NLF (Llog) ³	SOCNE	(2,474)	(2,394)
Ariannu net		21,799,996	15,338,394
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod cyn eu haddasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol			
Derbyniadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol sydd y tu allan i gwmpas gweithgareddau'r Adran	6	43	(24)
PTaliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol ⁴		28,510	47,686
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod ar ôl eu haddasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol	6	43	(24)
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod	6	37	61
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	6	80	37

Mae'r nodiadau ar dudalennau 83 i 100 yn rhan o'r cyfrifon hyn

- Mae'r symudiadau'n cynnwys: balansau adrannol gyda'r Gronfa Gyfunol: a symiau taladwy sy'n gysylltiedig ag ariannu - benthyciadau'r NLF (prifswm a llog), dyledwyr cyfalaf, lesau cyllid a PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth arall.
- Dyma'r swm a dderbyniwyd o'r Gronfa Gyfunol yng nghyswllt y flwyddyn gyfredol.
- Mae hyn yn cynnwys benthyciadau a ad-dalwyd gan endidau ar gyfer eu trosglwyddo ymlaen i'r NLF a llog a dderbyniwyd gan endidau i'w trosglwyddo i'r NLF.
- Arian parod a dalwyd drosodd i'r Gronfa Gyfunol dan unrhywategori.

Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan Swyddfa Cymru wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cyffredinol wrth gefn' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn yn adlewyrchu'r newid yng ngwerthoedd yr asedau nad ydynt wedi cael eu cydnabod yn incwm nac yn wariant. Mae'r Gronfa Gyffredinol yn adlewyrchu cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau adran, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi'i gynrychioli gan gronfeydd cadw eraill ac eitemau ariannu.

		Cronfa Gyffredinol	Cronfa Ailbrisió Wrth Gefn	Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr
	Nodyn	£000	£000	£000
Balans ar 01 Ebrill 2019		975	3,978	4,953
Cyllido Seneddol Net				
- Tynnwyd i lawr		15,342,016	-	15,342,016
- Tybiwyd	10	61	-	61
Cyflenwad heb ei Wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol	10	(37)	-	(37)
CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol		-	-	
Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	SOCNE	(15,342,470)	-	(15,342,470)
Taliadau nad ydynt yn arian parod				
Taliadau i'r Archwilydd	2	31	-	31
Symudiadau Eraill yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
- Eiddo, Offer a Chyfarpar		-	(81)	(81)
- Arall		(3)	-	(3)
Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
- Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		39	(39)	-
Balans ar 31 Mawrth 2020		612	3,858	4,470
Balans ar 01 Ebrill 2020		612	3,858	4,470
Cyllido Seneddol Net				
- Tynnwyd i lawr	SCF	21,804,832	-	21,804,832
- Tybiwyd	10	37	-	37
Cyflenwad heb ei Wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol	10	(80)	-	(80)
CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol				
Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	SOCNE	(21,804,947)	-	(21,804,947)
Taliadau nad ydynt yn arian parod				
Taliadau i'r Archwilydd	2	32	-	32
Symudiadau Eraill yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
- Eiddo, Offer a Chyfarpar		-	(212)	(212)
- Arall		-	-	-
Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
- Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		41	(41)	-
Balans ar 31 Mawrth 2021		527	3,605	4,132

Mae'r nodiadau ar dudalennau 83 i 100 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Swyddfa Cymru Adroddiad Blynddol a Chyfrifon

82

Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

1a) Datganiad polisiau cyfrifyddu

1.1 Sail y paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2020-21 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifyddu yn yr FReM yn dilyn y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddesir neu y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os bydd yr FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, y polisi cyfrifyddu a fennir fwyaf addas i amgylchiadau penodol Swyddfa Cymru at ddibenion rhoi darlun gwir a theg a ddewiswyd. Mae'r polisiau penodol a fabwysiadwyd gan Swyddfa Cymru wedi'u disgrifio isod. Maent wedi'u rhoi ar waith yn gyson wrth ymdrin â'r eitemau a ystyriwyd yn berthnasol yng nghyswllt y cyfrifon hyn.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi un datganiad sylfaenol arall. Mae'r Datganiad am y Cyflenwad Seneddol a'i nodiadau ategol yn cofnodi'r alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif o ran yr adnoddau net sy'n ofynnol a'r arian parod net sy'n ofynnol.

Arian cyfred swyddogaethol a chyflwyniadol Swyddfa Cymru yw'r Bunt Sterling Brydeinig (£).

1.2 S'yn Bresennol

Yn yr un modd ag adrannau eraill y llywodraeth, mae ariannu rhwymedigaethau'r Adran yn y dyfodol yn cael eu talu gan grantiau cyflenwad yn y dyfodol a chymhwyso incwm yn y dyfodol, i gael eu cymeradwyo'n flynyddol gan y Senedd. Mae'r Adran o'r farn nad oes unrhyw reswm i gredu na fydd cymeradwyaethau yn y dyfodol yn dod i law.

Mae sail busnes gweithredol cyfrifyddu ar gyfer yr adran yn cael ei fabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y byddant yn darparu yn parhau yn y dyfodol. Am y rhesymau uchod, ystyriwyd ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

1.3 Confensiwn cyfrifyddu

Mae Cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol sydd wedi'i addasu i roi cyfrif am ailbriso eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

1.4 Segmentau gweithredu

Ystyrir bod Swyddfa Cymru yn darparu un swyddogaeth ac, o ran adroddiadau IFRS, ystyrir ei bod yn un segment gweithredu.

1.5 Eiddo, offer a chyfarpar

Sail prisiau

Mae asedau ar ffurf eiddo, offer a chyfarpar (PPE) yn cael eu nodi ar sail gwerth teg. Pan gânt eu cydnabod i ddechrau mae asedau o'r fath yn cael eu mesur ar sail cost gan gynnwys unrhyw gostau a briodolir yn uniongyrchol i'r gwaith o sicrhau eu bod mewn cyflwr sy'n gweithio.

Dull prisiau

Mae gan Swyddfa Cymru un ased sy'n eiddo – Tŷ Gwydyr – wedi'i gynnwys ar ei werth teg, yn ôl dehongliad FReM, ar sail prisiau proffesiynol a wneir o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Rhwng un prisiad proffesiynol a'r nesaf, caiff gwerthoedd cario eu haddasu drwy ddefnyddio prisiau bwrdd gwaith proffesiynol.

Prisiau proffesiynol wedi ymgymryd yn flaenorol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiu (VOA) gan ddefnyddio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) Gwerthuso a Llawlyfr Prisiau, a elwir yn 'Llyfr Coch'. Yn 2020-21, comisiynwyd Montague Evans (Me) gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA) i dangaru prisiad corfforol o Gymun Tŷ fel rhan o drosglwyddo eiddo rhydd-ddaliadol i GPA.

Dynodir bod Tŷ Gwydyr yn adeilad rhestredig Gradd 2* ar sail 'Defnydd Presennol' yn unol â'r Llyfr Coch, gan gymryd i ystyriaeth natur ddarfodol yr eiddo.

Bydd asedau nad ydynt yn eiddo'n cael eu cynnwys ar sail eu cost adeg eu prynu ac fe'u hailddatgenir ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio Rhifau'r Mynegai Prisiau ar gyfer a gynhychir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Ailbrisiu

Pan fydd swm cario ased yn cynyddu yn sgil ailbrisiu, bydd y cynnydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr i'r graddau ei fod yn gwrthdroi gostyngiad ailbrisiu ar yr un ased a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr. Bydd unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn yn ecwiti'r Trethdalwyr.

